Agenda

Teitl y cyfarfod:	**Cyfarfod Cyhoeddus Bwrdd CNC**
Dyddiad y cyfarfod:	**Dydd Mercher 18 Tachwedd**
Amser y cyfarfod:	**10:10–13:45**

Amser	Eitem
Cyfarfod Cyhoeddus	
10:10 **(5 munud)**	**Eitem 1. Agor y Cyfarfod** • Croeso • Datgan Buddiannau • Egluro trefn y cyfarfod Noddwr a Chyflwynydd: Neil Sachdev, Cadeirydd **Crynodeb: NODI unrhyw ddatganiadau o fuddiannau**
Materion Rhagarweiniol	
10:15 **(5 munud)**	**Eitem 2. Adolygu Cofnodion a'r Log Camau Gweithredu a Phenderfyniadau** **2A. Adolygu Cofnodion Cyfarfod Cyhoeddus y Bwrdd ar 22 Medi** **2B. Adolygu'r Log Camau Gweithredu a Phenderfyniadau Cyhoeddus** Noddwr a Chyflwynydd: Neil Sachdev, Cadeirydd **Crynodeb: CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod blaenorol a'r Log Camau Gweithredu a Phenderfyniadau**

10:20
(10 munud)

Eitem 3. Gair am Ddiogelwch

Noddwr a Chyflwynydd: Neil Sachdev (Cadeirydd)

Cyflwynydd: Rhys Jones, Aelod o'r Bwrdd

Crynodeb: I aelod o'r cyfarfod roi gair o gyngor neu atgoffa ynghylch iechyd, diogelwch neu les. Rhys Jones i drafod lles.

Golwg Gyffredinol

10:30
(20 munud)

Eitem 4. Diweddariad gan y Cadeirydd

Noddwr a Chyflwynydd: Neil Sachdev, Cadeirydd

Crynodeb: NODI diweddariad y Cadeirydd i'r Bwrdd

10:50
(40 munud)

Eitem 5. Adroddiad gan y Prif Weithredwr

Noddwr a Chyflwynydd: Ceri Davies, Prif Weithredwr

Crynodeb: NODI'R sefyllfa bresennol a rhoi'r newyddion diweddaraf i'r Bwrdd ar weithgareddau allweddol

Cyfeirnod y Papur: 26-11-B07

Llywodraethu, Risg a Sicrwydd

11:30
(20 munud)

Eitem 6. Adroddiadau Diweddaru y Pwyllgorau a'r Fforymau

Noddwyr a Chyflwynwyr: Cadeiryddion Pwyllgorau

Cyfarfodydd Pwyllgor/Fforwm ers cyfarfod diwethaf y Bwrdd:

- Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg – 25 Medi – **Cyf. papur: 26-11-B08**
- Pwyllgor Ardaloedd Gwarchodedig – 29 Medi – **Cyf. papur: 26-11-B09**
- Pwyllgor Pobl – 8 Hydref – **Cyf. papur: 26-11-B10**
- Pwyllgor Cyflawni Strategol – 4 Tachwedd
- Pwyllgor Cynghori ar Dystiolaeth – 10 Tachwedd
- Fforwm Rheoli Tir Cymru – 21 Medi – **Cyf. papur: 26-11-B15**

Pwyllgorau/Fforymau nad yw hi'n bryd iddynt gyfarfod tan ar ôl cyfarfod y Bwrdd:

- Pwyllgor Cyllid
- Fforwm Rheoli Dŵr Cymru
- Fforwm Pysgodfeydd Cymru
- Fforwm Mynediad Cenedlaethol Cymru

Crynodeb: NODI'R diweddariadau gan Bwyllgorau'r Bwrdd a Fforymau CNC.

Cynllunio Strategol

11:50
(20 munud)

Eitem 7. Dulliau o fynd i'r afael â gwastraff anghyfreithlon yng Nghymru

Noddwr: Prys Davies, Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth, Polisi a Thystiolaeth
Cyflwynydd: Nadia DeLonghi, Pennaeth Rheoleiddio a Thrwyddedu; Michelle Griffiths, Rheolwr Gweithrediadau ar gyfer Canol De Cymru

Crynodeb: NODI'R sefyllfa bresennol o ran troseddau gwastraff a rôl CNC wrth ymdrin â throseddu a thorri trwyddedau. Mae nifer o ymyriadau'n cael eu cynllunio i gryfhau ein dull o ganfod a tharfu ar ddrwgweithredu, a gorfodi. Gofynnir i'r Bwrdd LYWIO'R camau gweithredu arfaethedig neu ystyried dewisiadau eraill.

Cyf. papur: 26-11-B11

12:10
(45 munud)

Cinio

Cyflawni ein Cynllun

12:55
(20 munud)

Eitem 8. Adroddiad Perfformiad Cyllid - Ch2

Noddwr: Rachael Cunningham, Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol
Cyflwynydd: Catherine Allan, Pennaeth Cyllid

Crynodeb: CYMERADWYO'R newid yn y rhagolwg diweddaraf o £322.6 i £323.1m. CRAFFU ar y perfformiad ariannol ar gyfer Ch2.

Cyfeirnod y Papur: 26-11-B12

13:15
(20 munud)

Eitem 9. Diweddariad Chwarterol Dangosfwrdd Perfformiad y Cynllun Busnes - Ch2

Noddwr: Prys Davies, Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth, Polisi a Thystiolaeth
Cyflwynwyr: Arweinwyr Amcanion Llesiant; Sarah Williams, Pennaeth Strategaeth Gorfforaethol a PMO

Crynodeb: CYMERADWYO Adroddiad Perfformiad Ch2 Cynllun Busnes 2026/27.

Cyf. papur: 26-07-B16

Trafodaeth yn ôl Eithriad

13:35 **(5 munud)**	**Eitem 10. Adborth ar Gyfarfod Heddiw** Noddwr: Neil Sachdev, Cadeirydd **Crynodeb: Adolygiad o'r cyfarfod, yr hyn a wnaeth weithio a'r hyn y mae angen inni ei wneud yn wahanol.**
13:40 **(5 munud)**	**Eitem 11. UNRHYW FATER ARALL**
13:45	**Cloi'r Cyfarfod Cyhoeddus**

Cofnodion heb eu cadarnhau

Teitl y cyfarfod:	Cyfarfod Bwrdd CNC (Cyhoeddus)
Lleoliad:	Pafiliwn Rhyngwladol, Maes Sioe Frenhinol Cymru, Llanfair-ym-Muallt
Dyddiad y cyfarfod:	22 Medi 2026
Aelodau yn bresennol:	Neil Sachdev, Cadeirydd Ceri Davies, Prif Weithredwr Dr. Hushneara Begum Dr. Pete Fox Mair Gwynant Sarah Albon Dr. Rebecca Colley-Jones Yr Athro Calvin Jones Lesley Jones Yr Athro Rhys Jones Helen Pittaway Adam Taylor
Aelodau o'r Tîm Gweithredol yn bresennol:	Sarah Jennings, Cyfarwyddwr Gweithredol Cyfathrebu, Cwsmeriaid a Masnachol Rachael Cunningham, Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol Prys Davies, Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth, Polisi a Thystiolaeth Dominic Driver, Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau Cenedlaethol Lyndsey Rawlinson, Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau Lle Louise White, Cyfarwyddwr Gweithredol Pobl, Cyfleusterau a'r Fflyd
Mynychwyr yn bresennol:	Phil Williams, Pennaeth Llywodraethu ac Ysgrifennydd y Bwrdd (Pob eitem) Sarah Williams, Pennaeth Strategaeth Gorfforaethol a'r Swyddfa Rheoli Rhaglenni (PMO) (Pob eitem) Meinir Wigley, Pennaeth Cyfathrebu a Thrawsnewid Digidol (Pob eitem) Catherine Allan, Pennaeth Cyllid (eitem 7 yn unig) Mary Lewis, Pennaeth Polisi Rheoli Adnoddau Naturiol (eitem 8 yn unig)

	Yn ôl Huwel Manley, Pennaeth Gweithrediadau, De-orllewin Cymru (eitem 8 yn unig) Neil Parker, Arweinydd Tîm, Polisi a Strategaeth Bioamrywiaeth (eitem 8 yn unig) Matthew Park, Rheolwr, Stiwardiaeth Tir (eitem 8 yn unig)
Arsylwyr yn bresennol:	Ash Pearce, Arweinydd Tîm, Rhaglen Safleoedd Gwarchodedig (eitem 8 yn unig)
Ymddiheuriadau:	Mark McKenna
Ysgrifenyddiaeth:	Rhiannon Spencer, Arweinydd Tîm Ysgrifenyddiaeth y Bwrdd a Dirprwy Ysgrifennydd y Bwrdd Sian Johnston, Tîm Ysgrifenyddiaeth y Bwrdd Lauren Hughes, Tîm Ysgrifenyddiaeth y Bwrdd Deb Lee, Tîm Ysgrifenyddiaeth y Bwrdd Andrea Bennett, Tîm Ysgrifenyddiaeth y Bwrdd
Datgan Buddiannau	Dim

Eitem 1. Agor y Cyfarfod

Noddwr a Chyflwynydd: Neil Sachdev, Cadeirydd

1. Agorodd y Cadeirydd y cyfarfod ac estyn croeso i bawb. Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau newydd, a nodwyd yr ymddiheuriadau uchod.

Eitem 2. Adolygu Cofnodion a'r Log Camau Gweithredu a Phenderfyniadau

Eitem 2A. Adolygu'r Cofnodion o Gyfarfod Cyhoeddus y Bwrdd ar 29 Gorffennaf

2. Adolygwyd a chytunwyd ar gofnodion cyfarfod cyhoeddus y Bwrdd ar 29 Gorffennaf.

Eitem 2B. Adolygu'r Log Camau Gweithredu a Phenderfyniadau Cyhoeddus

3. Adolygwyd y Log Camau Gweithredu a Phenderfyniadau.

Eitem 3. Gair am Ddiogelwch

4. Cyflwynodd y Prif Weithredwr yr eitem a myfyriodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth, Polisi a Thystiolaeth ar y tymheredd uchel a'r tanau gwyllt a gafwyd yn ystod yr haf. Tynnwyd sylw at y baich ar staff gweithredol a'r broses o ddysgu yn gysylltiedig â chanfyddiad y cyhoedd o gyfrifoldebau CNC. Roedd y masgiau presennol

a ddarperir i staff sy'n mynychu tanau yn destun adolygiad, gan fod angen uwchraddio i gyfarpar mwy effeithiol. Roedd angen ystyried rotas hefyd, yn enwedig o ran adnoddau staff arbenigol. Byddai angen ystyried lles staff mewn swyddfeydd hefyd gan mai ond un swyddfa oedd yn cynnwys system aerdymheru.

5. Tynnodd y Prif Weithredwr sylw at y ffaith bod Cyfoeth Naturiol Cymru yn cyfrannu at adolygiad Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol o gynaliadwyedd gwasanaethau cyrff cyhoeddus i'r dyfodol, yng nghyd-destun y newid hinsawdd.

6. Dywedodd y Cadeirydd fod cysylltiad rhwng y gallu i wrthsefyll yr hinsawdd a diogelwch ynni, ac y gellid ystyried dulliau eraill o awyru, yn hytrach nag aerdymheru yn unig. Tynnwyd sylw at bwysigrwydd ystyried sut y byddai CNC a Chymru yn eu hadeiladu eu hunain ar gyfer y dyfodol, ac at y gwersi a ddysgwyd yn sgil digwyddiadau'r haf.

7. Yn dilyn cais gan y Cadeirydd, cytunodd yr Athro Rhys Jones i gyflwyno gair am ddiogelwch yn y cyfarfod nesaf ynghylch lles myfyrwyr newydd dan bwysau, gan fod elfennau tebyg rhwng hynny a'r pwysau ar gydweithwyr.

GWEITHREDU: Yr Athro Rhys Jones i gyflwyno'r Gair am Ddiogelwch yng Nghyfarfod y Bwrdd ym mis Tachwedd ar les myfyrwyr newydd dan bwysau oherwydd y tebygrwydd rhwng hynny a'r pwysau posibl ar gydweithwyr CNC.

Eitem 4. Diweddariad gan y Cadeirydd

Noddwr a Chyflwynydd: Neil Sachdev, Cadeirydd

8. Amlinellodd y Cadeirydd ddigwyddiadau yr oedd wedi bod iddynt, gan gynnwys yr Eisteddfod lle bu mewn cysylltiad ag aelodau o'r gymuned ffermio, swyddogion Llywodraeth Cymru (LlC) a rhanddeiliaid eraill. Roedd y Cadeirydd hefyd wedi cyfarfod ag aelodau unigol o Fwrdd Cyfoeth Naturiol Cymru a gyda John Davies, Cadeirydd yr Adolygiad Annibynnol o'r Baich Biwrocrataidd ar Ffermydd Teuluol yng Nghymru. Nodwyd bod nifer o'r Cyfarwyddwyr Anweithredol yn aros am gadarnhad ynghylch estyn eu cyfnod swydd. Roedd cyfarfodydd Noddi rheolaidd LlC wedi parhau. Yn y cyfarfodydd i ddod, byddai Llythyr Cylch Gwaith Tymor y Llywodraeth yn cael ei drafod.

9. Roedd y digwyddiadau eraill a oedd ar ddod yn cynnwys cyfarfod ag Aelodau'r Senedd mewn digwyddiad yn y Senedd a digwyddiad i ddathlu Bwyd a Ffermio yng Nghymru gan Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr (NFU). Cydnabuwyd pwysigrwydd meithrin perthnasoedd â'r gymuned ffermio gan fod hwn yn sector pwysig i Gymru. Byddai adolygiad o berfformiad hefyd yn cael ei gynnal gyda'r Gweinidog dros Wydnwch Gwledig a Chynaliadwyedd, cyfarfod Diogelwch Cyrff Cyhoeddus a chyfarfod â Phrif Weithredwr Dŵr Cymru. Byddai'r Bwrdd yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf am y rhain yn y cyfarfod nesaf.

Eitem 5. Diweddariad gan y Prif Weithredwr

Noddwr a Chyflwynydd: Ceri Davies, Prif Weithredwr

10. Rhoddodd y Prif Weithredwr ddiweddariad ar Adroddiad y Prif Weithredwr a thynnu sylw at faterion allweddol. O ran tanau gwyllt y DU, roedd Cymru wedi dioddef effaith anghymesur dros gyfnod hir o amser, gyda 57% o'r tanau wedi'u cofnodi yng Nghymru. Effeithiwyd ar allu staff i gyflawni gwaith wedi'i gynllunio ymlaen llaw gan fod adnoddau

staff yn cael eu cyfeirio at y tanau. Byddai angen ystyried y mater mewn modd strategol gan mai pwrpas y gwaith a gynlluniwyd ymlaen llaw oedd lliniaru effeithiau'r newid hinsawdd.

11. Er bod rhywfaint o law diweddar wedi lleihau ychydig o'r pwysau ar yr amgylchedd naturiol, roedd Cymru yn dal i fod mewn cyfnod o sychder. Roedd hyn yn dystiolaeth o effaith wirioneddol y newid hinsawdd. Byddai'r Prif Weithredwr yn mynd i uwchgynhadledd ar danau gwyllt Cymru i drafod gwersi o ddigwyddiadau'r haf a'r newidiadau y byddai eu hangen, er mwyn i'r sector cyhoeddus allu cyflawni ei wahanol rolau yn y dyfodol. Byddai angen i CNC gyflwyno'r dystiolaeth a gasglwyd yn bwyllog er mwyn osgoi ymatebion atgyrch a allai achosi problemau yn y tymor hwy.

12. Tynnwyd sylw at yr heriau'n gysylltiedig â sylw negyddol yn y cyfryngau ynghylch y cit diffodd tân o'r awyr, ac atgoffwyd bod CNC yn cefnogi'r Gwasanaeth Tân ac Achub fel ymatebydd Categori Un. Yn hanesyddol roedd gan CNC y gallu i ddiffodd tân o'r awyr ar gyfer Ystâd Goetir Llywodraeth Cymru. Byddai CNC yn gweithio'n agos gyda LIC a'r Gwasanaeth Tân ac Achub i ymestyn y cwmpas i gynnwys Cymru gyfan. Byddai angen i hyn hefyd gael ei gwblhau yng nghyd-destun y DU, gan fod sgiliau yn brin yn y maes hwn.

13. Tynnodd Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau Cenedlaethol sylw at Atodiad 1 yn Adroddiad y Prif Weithredwr ac at broffesiynoldeb cydweithwyr. Rhoddwyd diweddariad ar Risg Strategol Dau (SR02) - Bygythiadau Amgylcheddol Cynyddol, ac roedd digwyddiadau yn dystiolaeth o effeithiau'r newid hinsawdd. Nodwyd manteision cyffredinol y perthnasoedd gwaith o fewn system Fforymau Cydnerthedd Lleol Cymru, ond roedd gwaith i'w wneud o hyd yn y maes hwn.

14. Gofynnodd y Bwrdd a fyddai costau newid hinsawdd i Gymru yn cael eu mesur a'u catalogio i'w cyflwyno i LIC. Roedd digwyddiadau llifogydd, trasiedi a thanau gwyllt yn creu costau ar draws pob sector ac i dirfeddianwyr. Roedd gwaith wedi dechrau i gyfrifo costau ymateb CNC, y cyfleoedd a gollwyd a chostau gwaith a oedd wedi'i ohirio. Gallai CNC gynghori LIC a'r Awdurdodau Lleol i ddilyn esiampl CNC.

15. Yn dilyn ymholiad, esboniwyd y byddai'n cymryd sawl blwyddyn i waith ataliol o ran rheoli tir gael effaith sylweddol. Fodd bynnag, byddai cynlluniau wrth gefn ac amseroedd ymateb gwell yn allweddol yn y tymor byr. Byddai hyn yn rhan o'r ystyriaeth strategol. Yn gyffredinol, awgrymwyd bod pob digwyddiad estynedig yn costio tua £2-3m i CNC, gyda thri digwyddiad y flwyddyn. Byddai'r Bwrdd yn trafod hyn yn y dyfodol.

GWEITHREDU: Ysgrifenyddiaeth y Bwrdd i ychwanegu trafodaeth bellach ar gyfnodau hir o dywydd eithafol, ac effaith y newid hinsawdd, at Ragolwg y Bwrdd.

16. Roedd yr ymateb wedi gwella yn sgil cydweithio a gwaith partneriaeth dros y pum mlynedd blaenorol, ond awgrymwyd bod angen buddsoddiad pellach. Awgrymwyd hefyd y dylid dangos mewn adroddiadau yr enillion ar fuddsoddiad a sicrhawyd a'r costau y llwyddwyd i'w hosgoi drwy fesurau ataliol.

17. Nodwyd bod DC wedi adrodd ar gost tywydd 2018 i'r sector ffermio, gan amcangyfrif y ffigur £175m. Tynnwyd sylw hefyd at y cosbau llymach yn Ffrainc ac at yr ystyriaeth o ddifrif a roddir i danau gwyllt yn y wlad honno. Awgrymwyd y byddai atal yn anodd yn y

DU ac ystyried y sefyllfa gyfredol o ran deddfwriaeth ac y dylid canolbwyntio ar reoli tir wrth ymateb.

18. Tynnwyd sylw at effaith digwyddiadau parhaus ar gapasiti adnoddau a lles. Roedd angen adolygiad o'r modelau ymateb presennol, gan gynnwys ystyried y pwysau cronnus a oedd ar yr un cydweithwyr wrth iddynt ymateb i lawer o wahanol fathau o ddigwyddiadau. Cytunodd y Bwrdd i adolygu Model Capasiti ac Adnoddau CNC i asesu a oedd yn parhau i fod yn gynaliadwy yn wyneb digwyddiadau trychinebus, ac i archwilio dulliau eraill, gan gynnwys y potensial i drefnu capasiti wrth gefn, yn Niwrnod Strategaeth nesaf y Bwrdd.

GWEITHREDU: Byddai trafodaeth ar Fodel Capasiti ac Adnoddau CNC yn cael ei hychwanegu at yr agenda ar gyfer Diwrnod Strategol nesaf y Bwrdd.

19. Amlygwyd atebion sy'n seiliedig ar natur fel dull ataliol. Cafwyd ffocws ar gefnogi cymunedau'r ucheldir i wella'r trefniadau ar gyfer storio dŵr, dal carbon, bioamrywiaeth a chynhyrchu bwyd yn gynaliadwy, gan leihau effeithiau hinsawdd a llifogydd ymhellach i lawr yr afon.

20. Diolchodd y Bwrdd i bob cydweithiwr a gymerodd ran yn yr ymateb i ddigwyddiadau a gofyn am ddiweddariad ar baratoadau am lifogydd y gaeaf, gan gynnwys lles cydweithwyr, ac adolygiad o'r gwersi a ddysgwyd o'r ymateb i'r tanau gwyllt. Byddai'n bwysig deall cost digwyddiadau yn llawn, gan gynnwys eu cost economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol, a'u cost o ran lles, cynhyrchiant ac enw da.

GWEITHREDU: Ysgrifenyddiaeth y Bwrdd i ychwanegu adolygiad o'r gwersi a ddysgwyd yn sgil y tanau gwyllt at Ragolwg y Bwrdd.

21. Rhoddodd y Prif Weithredwr grynodeb o brif ddigwyddiadau'r haf, gan gynnwys Sioe Frenhinol Cymru a'r Eisteddfod, lle cafwyd sgyrsiau â rheolwyr tir a sefydliadau ffermio allweddol er mwyn meithrin perthnasoedd proffesiynol da. Cytunwyd ar feysydd allweddol i weithio arnynt gydag Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr (NFU) ac Undeb Amaethwyr Cymru. Roedd y Prif Weithredwr hefyd wedi cyfarfod â sefydliadau rheoleiddio ac aml-wasanaeth, a chyfeiriodd yn benodol at Asesydd Interim Diogelu'r Amgylchedd, yr oedd CNC wedi cyfrannu at amrywiaeth o'i adroddiadau. Roedd gan CNC berthynas gadarnhaol ag Archwilio Cymru hefyd. Amlinellwyd y gwaith diweddar gyda chyd-reoleiddwyr yn gysylltiedig ag ynni niwclear.

22. Croesawyd nifer y canmoliaethau gan y Bwrdd a gofynnwyd am fanylion pellach ynghylch y meysydd lle cafwyd canmoliaeth i'w cynnwys mewn adroddiadau yn y dyfodol, Roedd y manylion hyn yn rhan o Ganllaw Misol y Rheolwyr a gellid eu darparu i'r Bwrdd yn y dyfodol.

GWEITHREDU: Swyddfa'r Prif Weithredwr i gynnwys y meysydd lle cafwyd canmoliaeth yn Adroddiadau nesaf y Prif Weithredwr.

23. Esboniodd y Prif Weithredwr fod CNC yn gweithio'n dda gyda chwaer-sefydliadau i lesteirio gweithgarwch gwastraff anghyfreithlon, gan sicrhau nad oedd yn symud y broblem i fannau eraill. Roedd achosion sylfaenol, newidiadau deddfwriaethol a llif economaidd yn cael eu hadolygu, gan gynnwys gwahanol fathau o dactegau i lesteirio'r gweithgarwch. Roedd troseddau gwastraff yn faes ffocws gan fod yr heriau'n sylweddol

ac yn gysylltiedig â throseddu cyfundrefnol, yn enwedig o fewn ardaloedd Gogledd-ddwyrain a De-ddwyrain Cymru. Roedd tasglu aml-asiantaeth wedi'i sefydlu i nodi'r problemau yn y Gogledd-ddwyrain, ac roedd timau wedi cael eu had-drefnu o fewn CNC. Roedd dull o weithredu ar draws y sefydliad yn cael ei adolygu, ac roedd gwersi i'w dysgu gan sefydliadau eraill y gellid eu mabwysiadu.

24. Awgrymodd y Bwrdd y dylid lobïo dros gosbau trymach i atal troseddu ledled y DU. Roedd CNC yn gweithio'n strategol gydag Awdurdod Cyllid Cymru i sicrhau bod cyfraith treth yn cael ei defnyddio; byddai CNC hefyd yn cysylltu ag Awdurdodau Lleol.

25. Deallwyd bod gwaith ar y gweill i nodi pwy oedd defnyddwyr y gwasanaethau gwastraff anghyfreithlon. Roedd angen trafodaeth strategol ynghylch a oedd angen diweddaru deddfwriaeth ac a oedd gan sefydliadau ddigon o bwerau i ddelio â'r materion yn effeithiol. Roedd angen addysgu busnesau hefyd i adolygu eu cadwynau cyflenwi. Cadarnhawyd bod CNC wedi defnyddio deddfwriaeth enillion troseddau.

26. Croesawodd y Bwrdd y diweddariad ar Ganolfan Ymwelwyr Ffordd Goedwig Cwmcarn a dywedwyd ei fod nesáu at ddod i gytundeb a fyddai'n cael ei lofnodi yn y dyfodol agos.

27. Cyflwynwyd y cynnig i gael un corff amgylcheddol yn yr Alban i sylw'r Bwrdd. Roedd CNC wedi rhoi adborth ar yr agweddau cadarnhaol a'r gwersi a ddysgwyd yn sgil cyfuno. Diolchodd y Cadeirydd i'r tîm am ymgysylltu'n dda â chyrff cyhoeddus Llywodraeth yr Alban a nododd fod y cynnig yn seiliedig ar ganlyniadau amgylcheddol da yn hytrach nag arbed costau.

28. Amlinellodd y Cadeirydd rôl CNC o ran ynni niwclear. Roedd angen i CNC roi cyngor priodol i LIC er mwyn osgoi unrhyw ganlyniadau anfwriadol. Ni ddylai atal twf, ond roedd ganddo ddyletswydd i atal difrod i'r amgylchedd drwy sicrhau bod penderfyniadau'n briodol ar gyfer yr ardaloedd yr oeddent wedi'u cynnig ar eu cyfer.

Eitem 6. Adroddiad Diweddaru'r Pwyllgorau

Noddwyr a Chyflwynwyr: Cadeiryddion Pwyllgorau

Pwyllgor Cyllid (PC) – 8 Medi

29. Nododd Cadeirydd y PC nad oedd unrhyw ddiweddariad pellach.

Y Pwyllgor Cyflawni Strategol (PCS) -

30. Rhoddodd Cadeirydd y PCS drosolwg o'r ymateb i'r Canghellor ac esbonio sut y byddai CNC yn cefnogi cyflawni Rhaglen Niwclear y DU, gyda chais penodol am fewnbwn ar lefel y Bwrdd. Trafododd y Bwrdd yr ymateb a chymeradwyo'r ateb.

PENDERFYNIAD: Cymeradwyodd y Bwrdd yr ymateb i'r Canghellor yn gofyn am sicrwydd ynghylch sut y byddai CNC yn cefnogi cyflawni Rhaglen Niwclear y DU.

Eitem 7. Adroddiad Perfformiad Cyllid

Noddwr: Rachael Cunningham, Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol
Cyflwynydd: Catherine Allan, Pennaeth Cyllid

31. Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gweithredol CaGC yr Adroddiad Perfformiad Cyllid, a chyflwynodd y Pennaeth Cyllid y sefyllfa ariannol. Gofynnwyd am gymeradwyaeth y Bwrdd i newid y rhagolwg diweddaraf o £322.4 miliwn i £322.6 miliwn, gan gadarnhau bod y newid wedi cael ei ystyried gan y Tîm Gweithredol (TG) a'r PC.

32. Tynnwyd sylw at y rhagolygon gwerthiant Incwm Pren fel risg allweddol oherwydd bod gweithredwr wedi mynd yn fethdalwr, ac oherwydd gostyngiad mewn gwerthiant yn ystod hanner cyntaf y flwyddyn. O ran camau lliniaru, roedd fflach-werthiant i fod i ddigwydd ddiwedd mis Medi, cyn yr e-werthiant a oedd wedi'i drefnu ar gyfer mis Hydref. Ar ôl hynny byddai'r sefyllfa'n gliriach. Roedd y gweithredwr yr effeithiwyd arno yn cynrychioli tua £2.6 miliwn o'r diffyg posibl, tra bo LIC wedi cadw isafswm o £33 miliwn ar gyfer y sefyllfa incwm.

33. Tynnwyd sylw hefyd at wariant cyfalaf fel risg allweddol yn sgil Strategaeth Adeiladau Gogledd Cymru. Roedd dau opsiwn dan ystyriaeth, ac roedd disgwyl i gyfarfodydd gael eu cynnal tua diwedd mis Medi. Roedd yr effaith ar y gyllideb yn dibynnu'n rhannol ar a fyddai'r brydles a ddewisir o fewn adeilad LIC ai peidio. Roedd CNC hefyd yn adolygu buddsoddiad mewn seilwaith trwyddedu a chynllunio yn erbyn ei Gynllun Aml-flwyddyn.

34. Tynnwyd sylw at y cynlluniau wrth gefn, gyda chynnydd mewn gor-raglennu a fyddai'n rhoi CNC mewn sefyllfa ariannol well ar gyfer canol blwyddyn, lle gellid tynnu gwariant yn ôl, pe bai angen, yn hytrach na gadael tanwariant. Byddai eglurhad pellach yn cael ei roi yng nghyfarfod y Bwrdd ym mis Tachwedd. Cytunodd y Bwrdd i gymeradwyo'r newid i'r rhagolwg diweddaraf o £322.4 miliwn i £322.6 miliwn.

PENDERFYNIAD: Cytunodd y Bwrdd i gymeradwyo'r newid i'r rhagolwg diweddaraf o £322.4 miliwn i £322.6 miliwn.

35. Trafododd y Bwrdd y pwysau parhaus ar gyllid cyhoeddus a chytuno y byddai'r sefydliad yn parhau i archwilio sut i ddod yn fwy effeithiol ac effeithlon, gan gynnwys lleihau biwrocratiaeth ddiangen. Gallai fod yn fuddiol cael rhaglen i ddiffinio CNC y dyfodol a fyddai'n ddiwastraff ac effeithlon gan barhau ar yr un pryd i ddiogelu'r amgylchedd a gwasanaethu cwsmeriaid.

Eitem 8. Cyflwyniad Natur WBO1

Noddwr: Prys Davies, Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth, Polisi a Thystiolaeth
Cyflwynwyr: Mary Lewis, Pennaeth Polisi Rheoli Adnoddau Naturiol; Huwel Manley, Pennaeth Gweithrediadau, De-orllewin Cymru; Neil Parker, Arweinydd Tîm, Polisi a Strategaeth Bioamrywiaeth; Matthew Park, Rheolwr, Stiwardiaeth Tir

36. Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth, Polisi a Thystiolaeth yr eitem a'r cyflwynwyr, gan dynnu sylw at bwysigrwydd natur ac Amcan Lles 1 (WBO1) – Byd natur wrthi'n gwella - Ffocws ar Warchod Natur. Ffocws y tîm oedd gwarchod natur, adfer natur a gweithio i greu ecosystemau gwydn a gwarchod cynefinoedd.

37. Cyflwynodd y Pennaeth Polisi Rheoli Adnoddau Naturiol drosolwg o gyflawniad WBO1, a oedd yn cynnwys cynnydd wrth adfer 4,000 hectar o fawndir. Roedd gwaith adfer pellach wedi'i gynllunio a byddai cyngor yn cael ei roi ar amrywiaeth o geisiadau, gan gynnwys cynllunio a thrwyddedu mewn perthynas â'i effaith ar natur.

38. Esboniodd yr Arweinydd Tîm Polisi a Strategaeth Bioamrywiaeth fod Cymru yn cyfrannu at y Fframwaith Bioamrywiaeth Byd-eang, 30erbyn30 – sef gwarchod 30% o dir, môr a dŵr croyw erbyn 2030. Roedd yr ymrwymiad wedi'i gynnal drwy Strategaeth a Chynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Cenedlaethol y DU ac yng ngwaith cynllunio corfforaethol CNC, gyda CNC yn canolbwyntio ar gamau gweithredu o fewn ei ddyletswyddau cyfreithiol a'i gyfrifoldebau gweithredol.

39. Yn seiliedig ar dystiolaeth gyfredol, canllawiau statudol, a mecanweithiau sydd ar gael, amcangyfrifodd CNC y gallai gwaith ar Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA), ac i gydnabod ardaloedd cymwys ar y Tir Yn Ein Gofal, gyfrannu tua 8,000 i 8,500 hectar erbyn 2030. Pwysleisiodd y tîm fod maint yr amgylchedd morol a warchodir eisoes wedi mynd heibio 30% o edrych ar y ffigurau. Fodd bynnag, oherwydd bylchau mewn gwydnwch ecolegol mae'n bosib na ellid trin ardaloedd gwarchodedig presennol fel tasg wedi'i chwblhau.

40. Roedd y tîm yn gwahaniaethu rhwng cyfrif ardaloedd gwarchodedig yn ffurfiol a dangos eu bod yn cael eu rheoli'n effeithiol er budd natur. Roedd yn ofynnol i CNC gasglu tystiolaeth ac adrodd drwy ddangosyddion bioamrywiaeth Cydbwyllgor Cadwraeth Natur y DU. Fodd bynnag, roedd systemau presennol yn well am gofnodi prosiectau unigol na mesur canlyniadau ar raddfa genedlaethol. Nodwyd Cynlluniau Rheoli Safleoedd Dynodedig y Cynllun Ffermio Cynaliadwy (CFfC) fel mecanwaith allweddol ar gyfer gwella rheolaeth effeithiol, er bod disgwyl i lygredd aer, tanau gwyllt, a phwysau eraill allanol gyfyngu ar y canlyniadau.

41. Roedd angen i CNC gael tystiolaeth well ynghylch ble roedd rhaglenni fel y Rhaglen Rhwydweithiau Natur a gwaith mwyngloddiau metel yn gwella ardaloedd nad oeddent wedi'u gwarchod o'r blaen. Dylid defnyddio cynllunio gofodol i fyny'r afon i nodi ble byddai dynodi, adfer a chamau partneriaeth yn creu'r effaith fwyaf, gan leihau beichiau rheoleiddio a chyflawni diweddarach.

42. Amlinellodd y Rheolwr Stiwardiaeth Tir ddull CNC o ddefnyddio Rhwydweithiau Ardaloedd Cadwraeth (CANs) ar draws Ystâd Goetir Llywodraeth Cymru. Gyda 5,000 i 6,000 hectar o goetir hynafol wedi'i gynnig i'w gydnabod tra bo'r Ystâd ehangach yn cael ei thrin fel llwybr tymor hwy tuag at well cyflwr ecolegol. Roedd y tîm i gyflwyno dehongliad diwygiedig i LIC, a byddai'r penderfyniad i dderbyn hwnnw neu beidio yn dibynnu'n rhannol ar ystyriaeth o ddigonolrwydd trefniadau monitro presennol CNC, gan gynnwys gwaith monitro a gyflawnir o dan Safon Sicrwydd Coetiroedd y DU. Disgrifiwyd yr ardaloedd sy'n weddill o'r Ystâd tua 48,000 hectar o dan CANs fel safleoedd llwybr y gellid eu gwella drwy broses busnes arferol dros sawl degawd.

43. Esboniodd Pennaeth Gweithrediadau De-orllewin Cymru gynlluniau i gynyddu hysbysiadau SoDdGA, cryfhau ymgysylltiad â thirfeddianwyr, Rhwydweithiau Ecolegol Cadarn (RENs) ac ehangu fel bod safleoedd gwarchodedig unigol yn cyfrannu at adfer natur. Pwysleisiodd y tîm fod ymgysylltu'n gynnar ac yn glir â thirfeddianwyr yn hollbwysig wrth ddynodi; dangosai ceisiadau CFfC diweddar fod rhai ymgeiswyr heb fod yn ymwybodol bod hysbysiad wedi'i gyflwyno i ardaloedd afonol. Roedd y tîm Gweithrediadau yn gweithio gyda pherchnogion cyn rhoi hysbysiad ffurfiol lle bo modd.

44. Dangosai chwe phrosiect tir REN sut roedd gweithio mewn partneriaeth â chyrff y sector cyhoeddus, byrddau gwasanaeth, ymddiriedolaethau a thirfeddianwyr preifat

wedi galluogi mapio seilwaith bioamrywiaeth hanfodol a blaenoriaethu ardaloedd i'w gwella. Gallai'r CFfC gefnogi tirfeddianwyr cymwys, tra gellid bod angen cyllid arall gan LlC ar gyfer eraill.

45. Cwestiynodd y Bwrdd a fyddai'r meini prawf llym ar gyfer Naturfa a dynodi yn atal cyfranogiad neu'n creu safleoedd datgysylltiedig. Esboniodd y tîm fod Naturfa yn adlewyrchu fframwaith rheoli cadwraeth effeithiol byd-eang, ac na allai CNC felly newid y meini prawf sylfaenol ar ei gyfer. Fodd bynnag, gallai CNC weithio gyda LlC i wneud y categori llwybr yn fwy croesawgar i safleoedd a oedd yn gwella ac yn gwneud cyfraniadau hirdymor, yn hytrach na mynnu eu bod yn cyrraedd y trothwy uchaf ar unwaith. Ochr yn ochr â'r categori llwybr, gallai defnyddio cyfuniad o ddynodiadau, rhwydweithiau ecolegol a chynllunio ar raddfa'r dirwedd wneud y ddarpariaeth yn fwy cynhwysol ac effeithiol.

46. Holodd y Bwrdd a fyddai canolbwyntio ar safleoedd sydd eisoes yn bodloni safon uchel yn arafu'r cynnydd tuag at 30 erbyn 30 ac yn digalonni tirfeddianwyr a oedd yn fodlon gwella natur. Cynigiwyd caniatáu i safleoedd i ymuno drwy gynlluniau gwella a defnyddio map rhwydwaith Cymru gyfan i flaenoriaethu ardaloedd cysylltiedig, yn hytrach na safleoedd unigol ynysig.

47. Trafododd y Bwrdd fod bwlch mawr o ran cyflawni ar raddfa tirwedd benodol, ac y gallai gwneud hynny dalu ar ei ganfed. Roedd CNC yn archwilio sut y gallai tirweddau dynodedig, tirfeddianwyr mawr, a fforymau LlC gefnogi gweithredu cysylltiedig ar draws ardaloedd mwy, yn hytrach na dibynnu ar ddynodiadau ar wahân fesul safle yn unig. Cytunodd y Bwrdd na ddylid defnyddio unrhyw fecanwaith unigol i ddisodli'r gweddill. Roedd SoDdGAau yn parhau i fod yn ganolog er mwyn diogelu nodweddion ecolegol pwysig, tra dylai dynodiadau hyblyg ac ymwybodol o'r hinsawdd, Naturfa neu ei olynydd, RENs, cynlluniau ariannu, a negeseuon cyhoeddus hygyrch weithio gyda'i gilydd. Nododd y Bwrdd a'r Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau Cenedlaethol ei bod hi'n amhriodol, oherwydd newid hinsawdd, diffinio llwyddiant ar sail adfer i gyflwr hanesyddol penodol yn unig. Dylai dynodiad warchod prosesau ecolegol sylfaenol a chefnogi rheolaeth addasadwy, gan gynnwys cynefinoedd a rhywogaethau sy'n ymateb i amodau hinsawdd sy'n newid.

48. Trafododd y Bwrdd effaith y tanau gwyllt diweddar a'r angen am ddull o reoli sy'n edrych i'r dyfodol, gan fod y newid hinsawdd yn newid cynefinoedd a defnydd tir. Adroddodd y tîm fod Cymru ymhlith yr ardaloedd yr effeithiwyd arnynt waethaf - effeithiwyd ar 15,500 o hectarau, ac yng Nghymru y cafwyd y tân unigol mwyaf yn y DU. Cadarnhaodd y tîm fod asesiad llawn o'r difrod i safleoedd dynodedig yn dal i fod ar y gweill.

49. Awgrymodd y Bwrdd fod angen symud y tu hwnt i adroddiadau technegol ar hectarau a gweithgarwch drwy egluro pam mae adfer natur yn bwysig o safbwynt diogeledd bwyd, diogelwch cenedlaethol, iechyd a'r economi, drwy ddangos yr effaith fesuradwy a alluogwyd gan CNC ledled Cymru. Holodd y Bwrdd hefyd am yr iaith a ddefnyddir yn gysylltiedig â 30 erbyn 30 a Naturfa ac awgrymodd y dylid defnyddio iaith a oedd yn fwy cynhwysol er mwyn helpu'r cyhoedd i ddeall drwy ganolbwyntio ar natur, cynefinoedd a rhywogaethau yn hytrach na hectarau a nifer y safleoedd. Nododd y Pennaeth Polisi Rheoli Adnoddau Naturiol gyfle i fframio natur fel seilwaith hanfodol yn hytrach nag ychwanegiad dewisol neu gyfyngiad ar ddatblygiad.

50. Nododd y Bwrdd na allai CNC newid y safbwynt cenedlaethol ar ei ben ei hun, felly roedd yn rhaid iddo greu amodau a oedd yn galluogi tirfeddianwyr, y llywodraeth, sefydliadau anllywodraethol (NGOs), a chymunedau i wneud mwy o waith adfer natur. Awgrymodd y Bwrdd y dylai'r tîm ddychwelyd gyda disgrifiad cliriach o'r modd y gallai helpu i gau'r bwlch sy'n weddill tuag at uchelgais 2030, gan gynnwys y gefnogaeth, y newidiadau o ran polisi, yr adnoddau, neu'r camau gweithredu mewn partneriaeth sydd eu hangen gan y Bwrdd a rhanddeiliaid eraill. Diolchodd y Bwrdd i'r tîm am eu gwaith a gofyn am ffocws ar effaith yn hytrach na gweithgarwch er mwyn ymgysylltu ymhellach â'r cyhoedd a thirfeddianwyr.

Eitem 10. Adborth ar gyfarfod heddiw

51. Trafododd y Bwrdd a ellid addasu cyfarfodydd yn y dyfodol i fod yn gyfarfodydd mwy cyhoeddus, gan fyrhau'r sesiwn breifat.

Eitem 11. Unrhyw Fater Arall

52. Nid oedd unrhyw faterion eraill.

Diwedd y Cyfarfod

Cofnodion Camau Gweithredu a Phenderfyniadau'r Cyfarfodydd Bwrdd Cyhoeddus

	Log Gweithredu - Cyfarfodydd y Bwrdd									
Rhif Cam Gweithredu	Categori Cyfarfod	Dyddiad Cyfarfod	Rhif Eitem	Rhif Paragraff	Noddwr y Papur	Cam gweithredu	Perchennog	Erbyn	Statws	adau/Diweddariadau
25	Cyhoeddus	22/09/2026	3	7	Neil Sachdev, Cadeirydd	CAM GWEITHREDU: Yr Athro Rhys Jones i gyflwyno'r Gair am Ddiogelwch yng Nghyfarfod y Bwrdd ym mis Tachwedd ar lesiant myfyrwyr newydd dan bwysau oherwydd yr elfennau tebyg rhwng hynny a'r pwysau posibl ar gydweithwyr CNC.	Rhys Jones, Aelod o'r Bwrdd	18/11/2026	Parhaus	E-bost wedi'i anfon at Rhys a'i ychwanegu at yr agenda. Cam gweithredu i'w farcio fel un wedi'i gwblhau ar ôl cyfarfod y Bwrdd
26	Cyhoeddus	22/09/2026	5	15	Ceri Davies, Prif Swyddog Gweithredol	CAM GWEITHREDU: Ysgrifenyddiaeth y Bwrdd i ychwanegu trafodaeth bellach ar gyfnodau hir o dywydd eithafol, ac effaith ar newid hinsawdd, at Ragolwg y Bwrdd.	Ysgrifenyddiaeth y Bwrdd	24/09/2026	Cwblhawyd	Mae cofnod wedi'i ychwanegu at gyfarfod Bwrdd mis Ionawr i baratoi at dywydd eithafol dros gyfnod y gaeaf.
27	Cyhoeddus	22/09/2026	5	18	Ceri Davies, Prif Swyddog Gweithredol	CAM GWEITHREDU: Byddai trafodaeth ar Fodel Capasiti ac Adnoddau CNC yn cael ei hychwanegu at yr agenda ar gyfer Diwrnod Strategol nesaf y Bwrdd.	Ysgrifenyddiaeth y Bwrdd	19/11/2026	Cwblhawyd	

28	Cyhoeddus	22/09/2026	5	20	Ceri Davies, Prif Swyddog Gweithredol	CAM GWEITHREDU: Ysgrifenyddiaeth y Bwrdd i ychwanegu adolygiad o'r gwersi a ddysgwyd yn sgil y tanau gwyllt at Ragolwg y Bwrdd.	Ysgrifenyddiaeth y Bwrdd	18/11/2026	Cwblhawyd	Mae nodyn wedi'i ychwanegu at y Rhagolwg.
29	Cyhoeddus	22/09/2026	5	22	Ceri Davies, Prif Swyddog Gweithredol	CAM GWEITHREDU: Swyddfa'r Prif Weithredwr i gynnwys y meysydd lle cafwyd canmoliaeth yn adroddiadau nesaf y Prif Weithredwr.	Swyddfa Prif Swyddog Gweithredol	18/11/2026	Parhaus	Ymateb: Bydd yn anelu at gynnwys yr wybodaeth o adroddiad y Bwrdd ym mis Tachwedd ymlaen

Log Penderfyniadau - Cyfarfodydd y Bwrdd

Rhif y Penderfyniad	Categori Cyfarfod	Dyddiad Cyfarfod	Rhif Eitem	Rhif Paragraff	Noddwr y Papur	Penderfyniad
59	Cyhoeddus	22/09/2026	6	30	Pete Fox, Aelod o'r Bwrdd	Cymeradwyodd y Bwrdd yr ymateb i'r Canghellor yn gofyn am sicrwydd ynghylch sut y byddai CNC yn cefnogi cyflawni Rhaglen Niwclear y DU.
60	Cyhoeddus	22/09/2026	7	34	Rachael Cunningham, Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol	Cytunodd y Bwrdd i gymeradwyo'r newid yn y rhagolwg diweddaraf o £322.4 miliwn i £322.6 miliwn.

Papur Bwrdd CNC

Dyddiad y cyfarfod:	18 Tachwedd 2026
Teitl y papur:	Adroddiad y Prif Weithredwr (Sesiwn Gyhoeddus)
Cyfeirnod y papur:	26-11-B07
Cyflwynwyd y papur gan:	Ceri Davies, Prif Weithredwr
Diben	Gwybodaeth a thrafodaeth
Crynodeb	Mae'r papur yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r bwrdd am faterion cyfredol.

Cyflwyniad

1. Ers cyfarfod y bwrdd ym mis Medi, rydym wedi cael sawl sesiwn werthfawr a ddaeth â'n tîm arwain ehangach ynghyd. Yn ystod yr adegau prysuraf, mae'n hanfodol ein bod yn parhau i siarad â'n gilydd, gan gryfhau ein harweinyddiaeth ar y cyd a chanolbwyntio ar ein hamcanion strategol. Ym mis Medi, cynhaliom gynhadledd i uwch-arweinwyr yn Aberystwyth ar gyfer ein timau gweithredol, arwain a rheoli. Roedd hwn yn ddiwrnod da iawn, a chlywyd gan Nick Halfhide, Prif Weithredwr NatureScot, a Llyr Gruffydd AS, Gweinidog dros Wydnwch Gwledig a Chynaliadwyedd. Fy niolch i'r ddau am eu cefnogaeth a'u cyfraniad. Ym mis Hydref, daeth y timau gweithredol ac arwain ynghyd eto ar gyfer digwyddiad datblygu cydweithredol deuddydd a hwyluswyd gan JAM Consulting. Hefyd ym mis Medi, cynhaliom ein cynhadledd arweinyddiaeth gyntaf i arweinwyr tîm. Roedd llu yn bresennol a chawsom adborth ardderchog. Rydym wedi ymrwymo i gynnal y cynadleddau arweinyddiaeth hyn yn flynyddol.

2. Ddiwedd mis Medi, es i i gyfarfod adolygu rheolaidd y cadeirydd gyda'n gweinidog. Roedd hwn yn gyfarfod cadarnhaol a oedd yn canolbwyntio ar berfformiad a blaenoriaethau CNC, y trafodaethau cyllideb a oedd yn mynd rhagddynt o fewn Llywodraeth Cymru, a materion fel yr ymgyrch i recriwtio prif weithredwr. Rydym yn ddiolchgar i'r gweinidog am gytuno i ddod i'n cyfarfod bwrdd ym mis Tachwedd.

3. Ar ddechrau mis Hydref, bûm yn bresennol ar ymweliad EUB Tywysog Cymru ag Ynysgynwraidd. Adroddwyd yn helaeth ar hyn yn y cyfryngau; roedd y pwyslais ar effaith llifogydd difrifol yn y pentref, yn Sir Fynwy a'r dalgylch ehangach dros y blynyddoedd diwethaf, a'r gwaith sy'n cael ei wneud ar hyn o bryd i liniaru'r perygl o lifogydd. Rydym, wrth gwrs, yn chwarae rhan arwyddocaol yn y gwaith hwnnw, ac

roedd gan Dywysog Cymru ddiddordeb ym mhrofiad trigolion a'r gymuned ehangach, a'r opsiynau ar gyfer atebion ar raddfa'r dalgylch.

4. Yn ystod mis Hydref, cefais fy ngalwad chwarterol gyda Roch Cheroux, Prif Weithredwr Dŵr Cymru, a sgwrs â Chris Walters, prif weithredwr dros dro Ofwat. Bûm hefyd yn bresennol mewn cyfarfod o Grŵp Arwain ar y Cyd y Rheoleiddwyr Dŵr (WRJLG), sef y tro cyntaf i CNC gymryd rhan yn y fforwm hwn, sy'n dwyn ynghyd gynrychiolwyr o Defra a Llywodraeth Cymru gyda phrif weithredwyr Asiantaeth yr Amgylchedd, Ofwat a'r Arolygiaeth Dŵr Yfed. Mae'r grŵp yn arwain y gwaith i baratoi ar gyfer sefydlu un rheoleiddiwr dŵr integredig yn Lloegr a rheoleiddiwr economaidd newydd yng Nghymru. Bydd yn canolbwyntio ar alinio arferion rheoleiddio presennol pan fo modd, cyflawni'r blaenoriaethau a nodir gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU, a pharatoi sefydliadau ar gyfer dull sylweddol wahanol wrth i ni fynd i mewn i Adolygiad Prisiau 29 (PR29). Bydd angen newid diwylliannol ac ymddygiadol ar draws y diwydiant hyd yn oed cyn cyflwyno'r newidiadau deddfwriaethol disgwyliedig; mae'r grŵp yn gweithio tuag at ddisgwyliadau clir a rennir, negeseuon cyfathrebu cyson, a chyfleoedd ar gyfer cydweithio i gefnogi'r broses bontio.

5. Cefais gyfarfod pellach ag Uchelgais Gogledd Cymru, ochr yn ochr â chydweithwyr yn Llywodraeth Cymru, i drafod prosiectau buddsoddi a datblygu yn y Gogledd. Mae ein perthynas strategol â thîm Uchelgais Gogledd Cymru yn datblygu, ochr yn ochr â rhannu mwy o wybodaeth rhyngom, ac mae eisoes yn ysgogi adborth cadarnhaol gan fusnesau. Byddwn yn parhau i weithio'n agos ac yn adeiladol gyda nhw ar faterion yn ymwneud â chynllunio, trwyddedu a rheoleiddio.

6. Roedd cyfarfodydd eraill â rhanddeiliaid yn cynnwys Lhosa Daly, Cyfarwyddwr Cymru yn Ymddiriedolaeth Genedlaethol Cymru; Juliet Vickery, Prif Weithredwr Ymddiriedolaeth Adareg Prydain; Philip Duffy, Prif Weithredwr Asiantaeth yr Amgylchedd; a Catherine Mealing-Jones, Archwilydd Cyffredinol newydd Cymru. Cefais fy ngalwad chwarterol hefyd gyda Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, Derek Walker, pan drafodwyd gwydnwch hinsawdd a pharatoadau Cymru ar gyfer tywydd eithafol, yn dilyn tywydd poeth, tanau gwyllt a sychder misoedd yr haf.

7. Ochr yn ochr â'r cadeirydd, es i i'r Fforwm Arweinwyr Cyhoeddus ym mis Hydref. Traddododd y Prif Weinidog y brif araith, gan ganolbwyntio ar Y Rhaglen Lywodraethu a gyhoeddwyd yn ddiweddar. Rydym hefyd wedi cael ein cyfarfod pwyllgor noddi rheolaidd, ac Uwchgynhadledd Newid Hinsawdd a Gwydnwch gyntaf Cymru, dan gadeiryddiaeth y Prif Weinidog gyda thri aelod cabinet yn bresennol. Y thema oedd gwydnwch yn wyneb hinsawdd sy'n newid gan ddefnyddio ein profiad o lifogydd a thanau gwyllt y llynedd. Daeth yr uwchgynhadledd â phartneriaid o bob cwr o Gymru ynghyd i ystyried effaith gynyddol tanau gwyllt a'r camau gweithredu y mae angen eu cymryd i gryfhau gwydnwch a pharatoadau cenedlaethol. Roedd pynciau'r agenda'n cynnwys achosion sylfaenol ac uniongyrchol tanau gwyllt, yr ymateb diffodd tân, a chydlynu ehangach ar gyfer argyfyngau.

8. Roedd trafodaethau yn yr uwchgynhadledd yn adlewyrchu'r gweithgarwch tanau gwyllt sylweddol a brofwyd eleni, gyda mwy na 15,000 hectar wedi'u heffeithio, ac yn tynnu sylw at y gydnabyddiaeth gynyddol o danau gwyllt fel her allweddol i'r hinsawdd a'r amgylchedd. Rhoddodd gyfle i rannu ein gwaith ar atal, lliniaru a rheoli risg tanau gwyllt, gan gynnwys ein rhaglen drwy'r Grŵp Goruchwylio Strategol Tanau Gwyllt a'n cyfranogiad ym Mwrdd Tanau Gwyllt Cymru, sy'n ymdrechu i godi ymwybyddiaeth a chreu Cymru "sy'n gall o ran tanau gwyllt". Atgyfnerthodd yr

uwchgynhadledd bwysigrwydd dull cenedlaethol cydlynol o leihau risg tanau gwyllt, cryfhau parodrwydd, a chefnogi'r gwaith o reoli tir dros yr hirdymor ac addasu i'r hinsawdd. Nodir rhagor o fanylion am y negeseuon allweddol a'r canlyniadau â blaenoriaeth ymhellach isod.

9. Mewn cysylltiad â'n gwaith rheoleiddio niwclear yn Wylfa, cyfarfûm â Paul Dicks, Cyfarwyddwr Rheoleiddio yn y Swyddfa Reoleiddio Niwclear. Roedd ein trafodaeth yn ymdrin â'r model rheoleiddiwr arweiniol, ymgysylltu â phartneriaid niwclear, a Phrosiect Gwyndod, y prosiect pŵer niwclear adweithydd modiwlaidd bach newydd ar Ynys Môn. Mae Gwyndod yn cael ei ddefnyddio fel rhaglen waith "arwain a dysgu" i ddatblygu'r dull rheoleiddiwr arweiniol yng nghyd-destun safle adweithydd adeiladu newydd. Mae gennym dîm prosiect ar waith, sy'n caniatáu inni fwrw ymlaen â'r gwaith paratoadol, ac rydym yn parhau i weithio gyda'r Grŵp Rheoleiddiwr Niwclear Arweiniol ochr yn ochr â phartneriaid allweddol.

10. Roeddwn i wrth fy modd yn llofnodi Siarter y Gymraeg yn y Gwaith (Siarter Twf) yn ystod mis Hydref. Mae'r ddogfen bwysig hon, a ddatblygwyd gan TUC Cymru, yn ein galluogi i gydweithio â chydweithwyr a'n hundebau llafur cydnabyddedig i greu gweithle dwyieithog cynhwysol a chynyddu defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle. Rydym ni wir am i CNC fod yn amgylchedd croesawgar a chynhwysol i bawb sy'n defnyddio'r Gymraeg, gan gynnwys ein cwsmeriaid a'n partneriaid. Mae'r esiampl a osodwyd yng nghyfarfodydd ein bwrdd, sydd bellach yn gynyddol ddwyieithog, yn cael ei chroesawu ac yn bwysig yn hyn o beth.

11. Wythnos gyntaf mis Tachwedd, cynhaliwyd ein Cynhadledd Dystiolaeth. Mae'r digwyddiad blynyddol hwn yn ategu ein gwaith fel sefydliad sy'n seiliedig ar dystiolaeth ac yn tynnu sylw at y prosiectau a'r canlyniadau y mae data a thystiolaeth yn gwneud gwahaniaeth mor fawr iddynt. Y thema eleni oedd "trawsnewid tystiolaeth yn gamau gweithredu" ac roedd yr agenda'n cynnwys prif anerchiad gan yr Athro Peter Madden o Brifysgol Caerdydd, a siaradodd am ddefnyddio tystiolaeth i gefnogi pontio teg i ddyfodol adfywiol. Roeddwn i'n falch o agor y gynhadledd, gwrando ar gyflwyniadau, a chlywed cydweithwyr yn siarad gydag angerdd ac ymrwymiad am eu gwaith. Bu trafodaeth panel yn ystyried yr hyn sy'n troi tystiolaeth dda yn benderfyniadau da, a lansiwyd ein Fframwaith Tystiolaeth pedair blynedd newydd gan ein Pennaeth Gwybodaeth a Thystiolaeth, Michael Gerardo. Diolch i bawb a drefnodd y gynhadledd, a gyfrannodd ati, ac a aeth i'r diwrnod difyr hwn.

12. Cynhaliodd y Tîm Gweithredol sesiwn weithredol ar y cyd ag Ystad y Goron ar ddechrau mis Tachwedd. Fe wnaethon ni rannu ein blaenoriaethau strategol, ein blaenoriaethau cyfredol, a'r risgiau a'r cyfleoedd sy'n dod i'r amlwg, a thrafod meysydd posibl ar gyfer cydweithio. Mae hyn yn adeiladu ar ymgysylltu tebyg â'r timau gweithredol yn Ymddiriedolaeth Genedlaethol Cymru a Dŵr Cymru dros y deuddeg mis diwethaf, lle rydym wedi meithrin cydberthnasau cryfach â rhanddeiliaid ac wedi dysgu oddi wrth ein gilydd. Rydym yn gwerthfawrogi'r cydweithrediad agored a chefnogol hwn gyda'n partneriaid yn fawr.

13. Ym mis Tachwedd, es i i Symposiwm Arwain, digwyddiad arwyddocaol arall gan Lywodraeth Cymru a ddaeth ag arweinwyr cyrff cyhoeddus ledled Cymru ynghyd i lansio'r ysgol lywodraethiant genedlaethol newydd i Gymru. Bwriad hon yw rhoi pwyslais cenedlaethol newydd i arweinyddiaeth, dysgu a gallu yn y sector cyhoeddus yng Nghymru. Ymhlith y siaradwyr gwadd oedd ymgynghorydd rheoli'r Athro Dave Snowden, a'r arbenigwr a hyfforddwr arweinyddiaeth Diana Osagie.

Diweddariadau Strategol

Uwchgynhadledd Newid Hinsawdd a Gwydnwch Cymru – Negeseuon a Chanlyniadau Allweddol

14. Amlygodd y cyflwyniad i'r uwchgynhadledd fod cynnau tanau gwyllt yng Nghymru yn cael ei ysgogi cymaint gan ffactorau cymdeithasol â rhai amgylcheddol. Er bod newid hinsawdd ac arferion rheoli tir yn chwarae rhan bwysig, mae llosgi adloniant bwriadol a'r rhyngwyneb agos rhwng trefi a chefn gwlad, yn enwedig yng Nghymoedd y De, yn parhau i fod yn ffactorau allweddol sy'n cyfrannu at ddigwyddiadau tanau gwyllt. Pwysleisiwyd bod rheoli ucheldiroedd, glaswelltiroedd, coedwigoedd a rhostiroedd mewn ffordd gynaliadwy yn hanfodol, ond y bydd llwyddiant hirdymor hefyd yn dibynnu ar ddylanwadu ar ymddygiadau trwy ymgysylltu â'r gymuned, addysg, a gweithio mewn partneriaeth.

15. Myfyriodd y drafodaeth hefyd ar gyflawniadau rhaglen Llethrau Iach (2018 i 2023), a ddaeth â deg sefydliad ynghyd i fynd i'r afael ag achosion sylfaenol tanau gwyllt. Er bod cynnydd wedi'i wneud, cydnabuwyd bod angen gweithredu cydweithredol pellach i gyflawni argymhellion adroddiad *Doeth am Dân Cymru*, sy'n canolbwyntio ar ymgorffori gwydnwch rhag tanau gwyllt mewn rheoli tir a pholisi, sicrhau cyllid cynaliadwy, datblygu hyfforddiant a chanllawiau achrededig, cryfhau arweinyddiaeth strategol ar draws asiantaethau, a defnyddio dulliau sy'n seiliedig ar dystiolaeth i arwain gweithgareddau atal ac ymateb. Gyda'i gilydd, nod y camau hyn yw creu tirweddau a chymunedau mwy gwydn ledled Cymru a lleihau'r risg o danau gwyllt yn y dyfodol.

16. Yn dilyn yr uwchgynhadledd, cyhoeddodd y gweinidog ddatganiad yn nodi nifer o flaenoriaethau:

    - Gwaith amlasiantaeth i ategu Bwrdd Tanau Gwyllt Cymru wedi'i gryfhau i ddod â'r holl bartneriaid ynghyd ar lefel genedlaethol i baratoi ar gyfer tymor tanau gwyllt y flwyddyn nesaf, gan gwmpasu strategaethau ymyrryd yn gynnar, rheoli risg, cyfathrebu â'r cyhoedd a chydlynu amlasiantaeth.
    - Dull newydd ledled Cymru o fonitro risgiau gwydnwch yn y gwanwyn a'r haf er mwyn sicrhau bod gan adrannau'r llywodraeth a'r gymuned o ymatebwyr ddarlun risg cyfunol ac wedi'i ffocysu ar gyfer blaenoriaethu cynllunio a darparu adnoddau.
    - Adolygiad cyflym o dystiolaeth i ddeall rôl mesurau rheoli tir yn well wrth ategu ymdrechion i fod yn wydn rhag tanau gwyllt ac adolygiad ar wahân o'r Rheolau Llosgi Grug a Glaswellt.
    - Dod ag arbenigedd rhyngwladol i'r fei i ategu gwasanaethau tân ac achub Cymru gyda hyfforddiant a pharatoi.
    - Cofrestr strwythuredig ledled Cymru ar gyfer ffermwyr a pherchnogion tir i nodi eu parodrwydd i ddarparu cerbydau, offer a gwybodaeth leol i helpu gydag ymateb diffodd tân.
    - Adolygiad o dystiolaeth ac opsiynau gyda'r gwasanaethau tân ac achub ar wella gweithdrefnau monitro iechyd a dihalogi.
    - Archwilio camau ataliol pellach i leihau risg, gan gynnwys ymdrechion newydd ym maes ymgysylltu â'r cyhoedd i dynnu sylw at risgiau a sut y gallwn eu lleihau.

- Parhau i weithio gyda Llywodraeth y DU a gweinyddiaethau datganoledig eraill i ddarparu ateb cynhwysfawr ledled y wlad i'r diffyg presennol mewn asedau diffodd tân o'r awyr yn y DU.

17. Rydym eisoes yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru ar lawer o'r blaenoriaethau hyn ac, fel cadeirydd presennol Bwrdd Tanau Gwyllt Cymru, rydym yn trafod y camau nesaf o ran y bartneriaeth honno.

Trwyddedu a Rheoli Maethynnau

18. Rydym yn parhau i weld nifer cynyddol o gynigion datblygu ar gyfer dofednod, yn enwedig o fewn dalgylchoedd afon sensitif. Yr hyn rydym yn canolbwyntio arno o hyd yw sicrhau bod mesurau rheoli maethynnau, ansawdd dŵr a safleoedd gwarchodedig yn cael eu hystyried yn briodol wrth ddarparu cyngor amserol i awdurdodau cynllunio.

19. Daw'r cynnydd mewn cynigion yng nghyd-destun y 12 cais dofednod o Bowys a alwyd i mewn gan Weinidogion Cymru ym mis Tachwedd 2025, a allai gyda'i gilydd ddarparu lle i fwy na 700,000 o adar ac sy'n parhau i fod heb eu penderfynu gan yr awdurdodau cynllunio ar ôl bron i dair blynedd o dan gyfarwyddiadau daliannol. Mae effeithiau amgylcheddol cronnus, yn enwedig mewn perthynas â rheoli maethynnau ac effeithiau ar ddalgylchoedd afon gwarchodedig, yn parhau i fod yn ystyriaeth allweddol.

20. Mae rheoli maethynnau hefyd yn bryder mewn perthynas â datblygiad tai Fferm Bers Isaf yn Wrecsam, lle mae angen ystyried effeithiau maethynnau ar afon Dyfrdwy ymhellach. Mae ein gwaith yma yn helpu i sefydlu fframwaith cliriach ar gyfer gwneud penderfyniadau ynghylch cynllunio yn y dyfodol yn y dalgylch. Yn achos GP Biotec, gwrthodwyd apêl gynllunio yn ymwneud ag adeilad derbyn gwastraff arfaethedig yn Nhalgarth ym Mhowys, gan gadarnhau y dylid ystyried y datblygiad fel “datblygiad gwastraff” yn hytrach na phrosiect arallgyfeirio fferm. Mae'r penderfyniad hwn yn rhoi mwy o eglurder ar y gofynion o ran cynllunio ar gyfer y prosiect wrth fynd ymlaen, ac ar gyfer y diffiniad o ddatblygiad mawr.

Datblygiadau Seilwaith yn y Gogledd

21. Rydym yn parhau i roi cyngor mewn perthynas â gorsaf bŵer Cei Connah, sef cynnig ar gyfer seilwaith o arwyddocâd cenedlaethol. Rydym wedi ymateb i gais statudol i gael rhagor o wybodaeth gan Ysgrifennydd Gwladol yr Adran Diogeledd Ynni a Sero Net ar effeithiau amgylcheddol a diogelu cynefinoedd. Mae'r penderfyniad terfynol wedi'i drefnu ar gyfer 9 Rhagfyr ar hyn o bryd.

22. Rydym yn parhau i fod mewn cysylltiad agos â Knauf a'u hasiant ar ystyriaethau amgylcheddol, yn enwedig ansawdd aer a safleoedd gwarchodedig, er mwyn helpu i lywio mesurau lliniaru sy'n ofynnol ar gyfer y penderfyniad cynllunio ar eu safle gweithgynhyrchu newydd arfaethedig yn Shotton. O ran Kronospan, rydym wedi lansio ymgynghoriad cyhoeddus ar newidiadau trwydded arfaethedig ar gyfer cyfleuster gweithgynhyrchu newydd. Mae'r broses yn dangos ein rôl wrth gydbwyso datblygu economaidd â diogelu cymunedau a'r amgylchedd.

23. Mae gweithgarwch dal a storio carbon ym Mae Lerpwl yn brosiect seilwaith carbon isel mawr sy'n cysylltu cyfleusterau dal carbon diwydiannol yng Ngogledd-orllewin Lloegr a Gogledd-ddwyrain Cymru â storio carbon deuocsid ar y môr o dan Fae

Lerpwl. Mae'n ddatblygiad cymhleth, cyntaf o'i fath sy'n cynnwys sawl rheoleiddiwr ac amrywiaeth o drwyddedau amgylcheddol. Mae llawer o brosiectau allweddol eraill yn gysylltiedig â'r prosiect hwn ac yn ddibynnol arno. Mae ein timau wedi gweithio'n rhagweithiol gyda'r datblygwr a rheoleiddwyr partner i egluro cyfrifoldebau o ran rheoleiddio, rhoi cyngor amserol, ac ymateb yn gyflym i faterion sy'n dod i'r amlwg. Mae hyn wedi helpu i roi mwy o sicrwydd i'r datblygwr ynghylch llwybr y gymeradwyaeth ac wedi galluogi cyflawni cerrig milltir allweddol y prosiect yn ôl y rhaglen.

Cynigion Ynni Adnewyddadwy

24. Rydym yn parhau i gynghori ar gynigion ynni adnewyddadwy mawr ledled Cymru. Mae enghreifftiau'n cynnwys Parc Ynni Rhiwlas, lle ataliodd yr arolygydd cynllunio'r archwiliad, gan ofyn am ragor o wybodaeth amgylcheddol gan y ceisydd. Dyma'r ail gais ynni adnewyddadwy i gael ei oedi, sy'n dangos pwysigrwydd cyflwyno ceisiadau o ansawdd da, darparu tystiolaeth gadarn, a datrys problemau'n gynnar. Ar gyfer Parc Ynni Calon y Gwynt, fe wnaethom nodi risgiau amgylcheddol allweddol yn y cyfnod cyn gwneud y cais, gan alluogi mynd i'r afael â materion cyn cyflwyno'r cais. Ar gyfer Esgair Cwmowen, fe wnaethom ddarparu cyngor a alluogodd y prosiect i fynd yn ei flaen wrth sicrhau y cafodd ystyriaethau amgylcheddol eu hystyried yn llawn.

Diweddariadau Gweithredol

Adolygiadau o Berfformiad Blynyddol y Cwmnïau Dŵr

25. Fe wnaethom ni gynnal ein hadolygiadau blynyddol o berfformiad y cwmnïau dŵr yng Nghymru yn ystod mis Medi, gan gyfarfod â thimau gweithredol Hafren Dyfrdwy a Dŵr Cymru. Mae'r cyfarfodydd hyn yn digwydd bob blwyddyn ym mis Medi, ac maent yn gyfle i CNC, Asiantaeth yr Amgylchedd (sef y rheoleiddiwr ar gyfer gweithrediadau Dŵr Cymru yn Lloegr), Ofwat a Llywodraeth Cymru drafod perfformiad y flwyddyn flaenorol â phob cwmni. Mae Asiantaeth yr Amgylchedd ac Ofwat yn cynnal cyfarfodydd tebyg â chwmnïau dŵr Lloegr tua'r un pryd.

26. Mae data perfformiad drafft 2025 eisoes wedi'i rannu â'r bwrdd; cyhoeddwyd yr adroddiadau terfynol ddiwedd mis Hydref. Mae'n gadarnhaol gweld bod Hafren Dyfrdwy wedi cynnal eu lefel uchel o berfformiad yn gyffredinol eleni; rydym yn hyderus yn hynt y cynnydd a wneir ac y dylid cynnal y safon uchel hon. Mae'r sefyllfa gyda Dŵr Cymru yn fwy heriol, oherwydd bod eu perfformiad ar y cyfan wedi parhau i fod yn wael yn 2025. Roedd eu prif weithredwr yn agored iawn ynglŷn â'r heriau maen nhw'n eu hwynebu; mae wedi gofyn i'w dîm gynhyrchu cynlluniau gwella perfformiad ar gyfer yr hyn y gellir ei gyflawni yn y tymor byr, wrth gynllunio ymlaen llaw ar yr un pryd ar gyfer y 30 mlynedd nesaf hyd at 2055. Rydym yn disgwyl dysgu mwy am y cynlluniau hyn a sut y gallwn eu cefnogi cyn bo hir.

27. Ym mis Hydref hefyd, cyhoeddwyd yr Adroddiad Mewnwelediadau ar y Cyd, yr asesiad cyfun cyntaf o berfformiad y cwmnïau dŵr ledled Cymru a Lloegr a gynhyrchwyd gan CNC, Asiantaeth yr Amgylchedd, Ofwat a'r Arolygiaeth Dŵr Yfed. Mae gwaith sylweddol wedi'i wneud ar draws rheoleiddwyr er mwyn sicrhau cysondeb o ran negeseuon a hyrwyddo dull rheoleiddio cydlynol.

28. Rydym yn parhau i chwarae rhan flaenllaw mewn rheoleiddio cydweithredol ledled Cymru a Lloegr wrth i baratoadau ddechrau ar gyfer yr adolygiad prisiau dŵr nesaf (PR29). Yn dilyn cytundeb gan Grŵp Arwain ar y Cyd y Rheoleiddwyr Dŵr, gan gynnwys Cyfoeth Naturiol Cymru, cyhoeddwyd datganiad ar y cyd ddechrau mis Tachwedd yn nodi rhaglen waith gyffredin y rheoleiddwyr, gan arwyddo dull cydweithredol cryfach a lansio'r broses ar gyfer PR29 yn ffurfiol. Nododd Gweinidogion Cymru flaenoriaethau Cymru ar gyfer PR29 ddiwedd mis Hydref.

Gorchymyn Sychder Afon Hafren

29. Ym mis Awst, gwnaeth Asiantaeth yr Amgylchedd ac CNC gais ar y cyd am orchymyn sychder i helpu i amddiffyn cyflenwadau dŵr yn nalgylch afon Hafren. Dyma'r tro cyntaf i gais gael ei wneud mewn 37 mlynedd, gan dynnu sylw at y pwysau a roddir ar adnoddau dŵr yn ystod y gwanwyn a'r haf, a dibyniaeth nifer o gwmnïau dŵr ar afon Hafren.

30. Mae'r ffaith bod rhywfaint o law wedi dychwelyd i'r ardal wedi golygu bod lefelau cronfa ddŵr Llyn Clywedog wedi dechrau gwella ac maent bellach uwchlaw'r trothwy ar gyfer gorchymyn sychder. Mae'r llif cynyddol yn afon Hafren hefyd yn golygu nad oes angen gollyngiadau rheoledig o'r gronfa ddŵr i gynnal llifoedd ar hyn o bryd ac mae'n annhebygol y bydd eu hangen dros y gaeaf. O ganlyniad, rydym yn ceisio tynnu'r cais am orchymyn sychder yn ôl, ac mae hysbysiad i'r perwyl hwn yn cael ei ddrafftio ar hyn o bryd ar gyfer Defra a Llywodraeth Cymru.

31. Mae'r profiad a gafwyd yr haf hwn, gan gynnwys y gweithio trawsffiniol cysylltiedig ag Asiantaeth yr Amgylchedd ar y mater hwn, wedi ein helpu i baratoi ar gyfer hafau poeth y dyfodol.

Briallu'r Dŵr

32. Yn dilyn nodi presenoldeb briallu'r dŵr (*Ludwigia grandiflora*), rhywogaeth estron oresgynnol iawn, ar ran isaf afon Elái uwchben Bae Caerdydd, rydym wedi gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru, Awdurdod Harbwr Caerdydd ac Asiantaeth yr Amgylchedd i reoli'r digwyddiad. Mae arolygon helaeth o gychod ym Mae Caerdydd a rhannau isaf afon Elái ac afon Taf, wedi'u cefnogi gan arolygon mapio, wedi cadarnhau'r prif bla yn rhan isaf afon Elái islaw Pont Lecwydd, gyda digwyddiadau ynysig ychwanegol wedi'u nodi yn rhan isaf afon Taf.

33. Dechreuodd rhaglen driniaeth gydlynol ddiwedd mis Medi, dan arweiniad Asiantaeth yr Amgylchedd o dan drwydded a defnyddio'r chwynladdwr Triclopyr. Yn ystod gweithrediadau trin, nodwyd bod y planhigyn yn bresennol mewn ardal fwy nag a gofnodwyd ac a driniwyd yn wreiddiol. Cafodd yr holl blanhigion a nodwyd eu trin o fewn chwe awr, a chadarnhaodd archwiliadau dilynol y diwrnod canlynol arwyddion o wywo, gan ddangos bod y driniaeth wedi bod yn effeithiol.

34. Cyn y gweithgarwch trin, ymgymerwyd â gwaith paratoadol dan arweiniad CNC a oedd yn cynnwys sicrhau caniatâd, awdurdodiadau rheoleiddiol ac asesiadau amgylcheddol i alluogi gweithgareddau trin. Roedd yr ymateb yn gofyn am ailflaenoriaethu ein hadnoddau gweithredol yn gyflym a chydweithio agos rhwng ein timau. Er i gyfathrebiadau gael eu paratoi, ni chafwyd unrhyw ymholiadau gan y cyhoedd na'r cyfryngau.

35. Mae'r risg uniongyrchol o ymlediad pellach wedi'i lleihau'n sylweddol ond bydd angen rheolaeth barhaus. Bydd Awdurdod Harbwr Caerdydd yn parhau i gynnal gwaith monitro drwy gydol y gaeaf, gydag arolwg pellach wedi'i gynllunio ar gyfer y gwanwyn y flwyddyn nesaf. Disgwylir y bydd angen triniaeth ychwanegol dros y pedair blynedd nesaf, ac mae cynllun rheoli tymor hwy yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd.

Tracio Gwastraff yn Ddigidol

36. Daeth tracio gwastraff yn ddigidol yn orfodol ar gyfer safleoedd derbyn gwastraff yng Nghymru a Lloegr o 1 Hydref, gan nodi cam sylweddol tuag at wella tryloywder gwastraff a'r gallu i'w olrhain. Er bod y broses weithredu wedi dechrau, mae heriau'n parhau, gan gynnwys parodrwydd y diwydiant, cost y feddalwedd y mae ei hangen i integreiddio â'r system, a'r diffyg mynediad presennol gan reoleiddwyr at ddata a gyflwynwyd. Rydym yn parhau i weithio gyda Llywodraeth Cymru, Defra a phartneriaid yn y diwydiant i fynd i'r afael â'r materion hyn ac i ategu'r broses o weithredu'r system newydd yn llwyddiannus. Disgwylir y bydd ehangu'r system yn y dyfodol yn gofyn am ddatblygiad polisi a thechnegol pellach.

Diweddariadau Mewnol

Cynhadledd Dystiolaeth

37. Cynhaliwyd chweched Gynhadledd Dystiolaeth CNC yn rhithwir ar 5 Tachwedd o dan y thema "trawsnewid tystiolaeth yn gamau gweithredu". Roedd y gynhadledd yn cynnwys cyfraniadau gan y darlledwr, y cyfathrebwr gwyddoniaeth a'r ymgyrchydd cefn gwlad Mary-Ann Ochota, ymchwilwyr a gydnabyddir yn rhyngwladol, a chynghorwyr y Cenhedloedd Unedig ar gynaliadwyedd a'i agweddau economaidd-gymdeithasol, newid hinsawdd, gwneud penderfyniadau, y dyfodol, arloesedd a moeseg polisi amgylcheddol (Peter Madden, Patrick Devine-Wright, Luci Attala ac Andy Stirling). Wrth i ni lansio ein dull strategol newydd o ymdrin â thystiolaeth, croesawon ni Helen Doran, Prif Arbenigwr Effaith yn Natural England (NE), a ddatblygodd Fframwaith Tystiolaeth NE, gallu'r dyfodol, a'i feysydd o ddiddordeb ymchwil cyhoeddedig.

38. Cyflwynodd cydweithwyr o CNC a Llywodraeth Cymru ystod amrywiol ac arloesol o astudiaethau achos, o ddefnyddio coleri lloeren ar eifr ar gyfer pori cadwraeth i amddiffyn bryoffytau prin, i elfennau ymddygiadol ymateb i lifogydd. Roedd y digwyddiad yn gyfle gwerthfawr i rannu dysgu, herio dulliau cyfredol, ac archwilio sut y gellir defnyddio tystiolaeth yn fwy effeithiol i fynd i'r afael â'r heriau amgylcheddol cymhleth sy'n wynebu Cymru. Gadawodd y rheini a oedd yn bresennol gydag ymrwymiad cyffredin i gasglu, dadansoddi a defnyddio'r dystiolaeth gywir yn y lle cywir i gyflawni ein hamcanion llesiant a rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy.

Rhaglen Trawsnewid Gwasanaeth Cwsmeriaid

39. Fel rhan o ymrwymiad Llywodraeth Cymru i symleiddio'r broses trwyddedu morol yn dilyn yr Archwiliad Dwfn Ynni Adnewyddadwy, gall cwsmeriaid bellach gyflwyno pob cais am drwydded forol ar-lein trwy ein Platfform Cwsmeriaid. Mae'r trawsnewidiad hwn yn darparu proses ymgeisio symlach, gyflymach a mwy hygyrch, gan roi un llwybr digidol i gwsmeriaid wneud cais, olrhain cynnydd, a rhyngweithio â'r

gwasanaeth trwyddedu. Mae'n lleihau dibyniaeth ar brosesau papur a llaw, yn gwella tryloywder, ac yn creu profiad mwy effeithlon a hawdd ei ddefnyddio i geiswyr.

40. Gan mai dyma'r gwasanaeth cyntaf i gael ei ddarparu drwy'r Rhaglen Trawsnewid Gwasanaeth Cwsmeriaid, mae hyn hefyd yn garreg filltir arwyddocaol wrth foderneiddio ein darpariaeth gwasanaeth. Bydd y dull, y galluoedd a'r buddion a sefydlir drwy'r gwasanaeth hwn yn paratoi'r ffordd ar gyfer rhoi mwy o wasanaethau yn y dyfodol ar y platfform, gan alluogi cwsmeriaid ar draws ystod ehangach o wasanaethau i brofi'r un gwelliannau o ran hygyrchedd, effeithlonrwydd a phrofiad cwsmeriaid.

Parodrwydd ar gyfer y gaeaf

41. Fel sefydliad, rydym yn gyffredinol wedi paratoi'n dda ar gyfer y gaeaf, gyda chynlluniau, hyfforddiant, offer a threfniadau ymateb ar waith ar draws y sefydliad. Y prif bryder yw nid a allwn ymateb i ddigwyddiadau, ond a allwn gynnal ein hymateb yn ystod cyfnod hir o dywydd garw neu ddigwyddiadau lluosog.

42. Mae'r rhagolygon tymhorol diweddaraf yn dangos siawns uwch na'r arfer o aeaf llawer gwlypach. Mae'r tebygolrwydd o amodau gwlypach na'r arfer wedi cynyddu o tua 20% i 40%, a gall patrymau tywydd ehangach hefyd ddod â risg uwch o stormydd a glaw trwm. Er mwyn paratoi, mae'r gwaith o gynllunio ar gyfer y gaeaf wedi cael ei adolygu ar draws timau gweithredol a chymorth, ac mae hyfforddiant staff, rotâu dyletswydd, trefniadau uwchgyfeirio a chynlluniau ymateb i ddigwyddiadau wedi cael eu diweddaru. Mae cerbydau, offer ac adnoddau ymateb i lifogydd yn barod i'w defnyddio i raddau helaeth. Bydd cyfarfodydd goruchwylio ac ymbaratoi rheolaidd ar gyfer arweinwyr yn mynd rhagddynt drwy gydol y gaeaf tra bod ein timau cyfathrebu wedi cryfhau gwybodaeth gyhoeddus, ymgysylltu â'r cyfryngau a gweithgareddau parodrwydd rhanddeiliaid.

43. Y risg fwyaf arwyddocaol yw gallu a gwydnwch staff. Mae sawl tîm yn dibynnu ar nifer gymharol fach o staff a gwirfoddolwyr profiadol, tra bod swyddi gwag, absenoldeb oherwydd salwch a'r angen i gefnogi swyddogion sydd newydd eu hyfforddi yn ychwanegu at y pwysau. Mae pryderon y gallai cyfnod hir o lifogydd neu dywydd garw arwain at flinder a lleihau gwydnwch sefydliadol dros amser. Felly, mae diogelu llesiant staff a sicrhau trefniadau gwaith cynaliadwy yn flaenoriaethau allweddol.

44. Rydym yn deall ble mae ein risgiau seilwaith allweddol ac mae gennym gynlluniau ar waith i'w rheoli. Mae nifer o asedau o berygl llifogydd yn parhau i fod islaw eu cyflwr gofynnol, er bod y rhain yn cael eu monitro a'u rheoli. Mae sylw'n cael ei roi i rai problemau lleol hysbys ac asedau agored i niwed, ac mae gwaith yn mynd rhagddo i gynnal systemau telemetreg hanfodol a rheoli'r risgiau sy'n gysylltiedig â thechnoleg hŷn nes bod systemau newydd yn gwbl weithredol. Mae gan systemau TGCh drefniadau cymorth dros y gaeaf ar waith a gallant flaenoriaethu cymorth i dimau gweithredol. Ar y cyfan, mae timau'n hyderus bod risgiau'n cael eu deall a bod camau lliniaru ar waith.

45. Er bod y gallu ymateb yn gryf, gall cynnal gwaith adfer pwysig ar ôl digwyddiadau, fel asesiadau difrod, casglu data ac adolygiadau dysgu, fod yn heriol. Mae angen cymorth parhaus gan arweinwyr er mwyn sicrhau bod y gwaith hwn yn cael blaenoriaeth ddigonol unwaith y bydd pwysau gweithredol uniongyrchol wedi lleihau.

Rydym yn sefydlu trefniadau adfer bellach i gychwyn os oes rhaid i ni fynd ati i adfer yn dilyn digwyddiadau llifogydd sylweddol.

Prosiect Adfer Cors Crymlyn

46. Enillodd Prosiect Adfer Cors Crymlyn wobr arbennig fawr ei bri'r cadeirydd yng Ngwobrau Sefydliad y Peirianwyr Sifil (ICE) Cymru am ei arddangosiad eithriadol o ragoriaeth beirianyddol gan ddefnyddio ateb ar sail natur. Llwyddodd y fenter, sydd wedi'i chyflwyno drwy ein prosiect Corsydd Crynedig LIFE a'r contractwr peirianneg sifil EcoVigour, i adfer cydbwysedd hydrolegol ffen iseldir mwyaf Cymru, a ystyriwyd ers tro yn rhy wlyb oherwydd colli swyddogaeth camlas hanesyddol a arferai gynnal cydbwysedd hydrolegol y safle. Bu'n rhaid i dîm y safle glirio'r gamlas gan ddefnyddio peiriannau amffibiaidd arbenigol trwm ar fawn crynedig ansefydlog iawn a llawn dŵr.

47. Mae Cors Crymlyn yn wlyptir o bwys byd-eang sy'n darparu cynefin hanfodol i rywogaethau prin, fel corryn rafft y ffen. Mae tirweddau mawndir yn gyffredinol yn storio cyfeintiau sylweddol o garbon, yn helpu i reoleiddio lefelau dŵr, ac yn darparu cynefinoedd pwysig i fywyd gwyllt. Mae cynnal yr amodau hydrolegol cywir yn hanfodol os ydyn nhw am barhau i gyflawni'r buddion hyn. Mae'r wobr yn dathlu sut mae'r gwaith i adfer Cors Crymlyn yn mynd i'r afael ag adfer natur a gwydnwch hinsawdd yn llwyddiannus.

Cyfathrebu

Cyfathrebu Corfforaethol

48. Yn ystod y cyfnod hwn, rheolodd y tîm Cyfathrebu a Materion Allanol raglen sylweddol o negeseuon cyfathrebu rhagweithiol ochr yn ochr â nifer o faterion rheoleiddiol, amgylcheddol ac enw da o broffil uchel. Roedd y gweithgarwch allweddol yn cynnwys negeseuon cyfathrebu yn ymwneud â safle tirlenwi Withyhedge, dyddodion gwastraff yng Nghoed-poeth, parodrwydd ar gyfer cyfnodau o sychder a llifogydd, penderfyniadau rheoleiddio, gweithgarwch gorfodi, a pharatoadau ar gyfer yr adroddiadau sector dŵr sydd ar ddod. Fe wnaethom ni hefyd gefnogi negeseuon cyfathrebu ynghylch penderfyniad y Gweinidog dros Effeithiolrwydd Llywodraeth a'r Cyfansoddiad i ymgymryd â mwy o weithgarwch ymgysylltu ar Barc Cenedlaethol Glyndŵr arfaethedig, a pharhau i weithio gyda phartneriaid ar baratoi ar gyfer tanau gwyllt.

49. Hyrwyddodd y tîm amrywiaeth o straeon cadarnhaol yn tynnu sylw at waith CNC, gan gynnwys camau gorfodi llwyddiannus yn dilyn difrod i Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) y Berwyn a chydnabyddiaeth genedlaethol i brosiect Corsydd Crynedig LIFE, a gafodd wobr y cadeirydd gan Sefydliad y Peirianwyr Sifil. Fe wnaethom ni hefyd gefnogi negeseuon cyfathrebu mewn ymateb i ddatblygiadau gwleidyddol a pholisi ehangach, megis yr estyniad i drefniadau gwasgaru slyri a'r ddadl gyhoeddus ynghylch rheoleiddio amgylcheddol. Yn fewnol, fe wnaethom gefnogi negeseuon cyfathrebu ynghylch y broses ar gyfer recriwtio prif weithredwr.

Cyfathrebu ac Ymgysylltu Mewnol

50. Cefnogodd y tîm y gwaith o gyfleu canlyniadau arolwg Ein Llais, gan gydnabod y themâu cadarnhaol yn yr adborth wrth ddangos ymrwymiad i wella pan fo angen. Mae'r gwaith hwn yn cyd-fynd â gweithgarwch sefydliadol ehangach i wella profiad cydweithwyr, llesiant ac arweinyddiaeth. Rydym hefyd wedi helpu i hyrwyddo'r Gynhadledd Dystiolaeth, a gynhaliwyd ym mis Tachwedd, gan gynnwys cyfres o straeon cydweithwyr sy'n dangos sut mae tystiolaeth yn llywio'r broses o wneud penderfyniadau a chyflawni ar draws CNC.

Materion Allanol

51. Mae ymgysylltu â rhanddeiliaid yn parhau i fod yn rhywbeth hollbwysig rydym yn canolbwyntio arno. Daeth digwyddiad pellach "'Sgyrsiau ag CNC'", a gynhaliwyd ar ôl cyfarfod y bwrdd ym mis Medi yn Llanfair-ym-Muallt, â rhanddeiliaid, aelodau'r bwrdd a chydweithwyr ynghyd i drafod materion lleol, gwrando ar bryderon, a chryfhau cydberthnasau. Mae adborth yn cael ei adolygu i lywio digwyddiadau yn y dyfodol.

52. Cefnogodd y tîm hefyd weithgarwch ymgysylltu ag uwch-arweinwyr mewn amrywiaeth o ddigwyddiadau rhanddeiliaid, fel Empower Cymru a digwyddiad rhanddeiliaid Amcan Llesiant 2, gyda mwy o weithgarwch ymgysylltu wedi'i gynllunio trwy Dyfodol Ynni Cymru. Gan weithio'n agos gyda chydweithwyr ar draws CNC, fe wnaethom gefnogi'r broses o gyflwyno cyfres o weminarau ar yr Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol, ymgysylltu â rhanddeiliaid ar gyfer yr Adroddiad Mewnwelediadau Rheoleiddwyr ar y Cyd, a gweithgarwch ymgysylltu sy'n gysylltiedig ag ystod o ymgynghoriadau a rhaglenni.

53. Mae cyngor a chymorth wedi'u darparu ar draws sawl prosiect arwyddocaol i helpu i sicrhau bod gweithgarwch ymgysylltu yn parhau i fod yn gymesur ac yn effeithiol a'i fod yn cyd-fynd ag amcanion y sefydliad. Mae'r rhain yn cynnwys cefnogi gweithgarwch ymgysylltu â rhanddeiliaid sy'n ymwneud â'r ymgynghoriad cyn ymgeisio ar adweithydd modiwlaidd bach Trawsfynydd, ailgyflwyno ffioedd mynediad i dir, a'r ymgynghoriad ar ddip defaid.

Adeiladu Gwydnwch rhag Newid Hinsawdd

54. Mae gwydnwch hinsawdd wedi bod yn ffocws mawr yn ystod y cyfnod hwn wrth i Gymru drawsnewid o haf eithriadol o sych i dymor perygl llifogydd yr hydref a'r gaeaf. Cynhyrchodd yr ymgyrch flynyddol #BarodAmLifogydd sylw eang yn y cyfryngau a chynnydd sylweddol mewn camau gan y cyhoedd. Roedd gweithgarwch cynllunio helaeth ymlaen llaw yn cynnwys briffiau rhagweithiol i'r cyfryngau, nifer o papurau briffio gan y Fforwm Gwydnwch Lleol, a chydlynu llefarwyr a chyfleoedd yn y cyfryngau, gan helpu i sicrhau sylw eang yn y newyddion yn ystod yr wythnos. Daeth yr ymgyrch hefyd â lleisiau o'r gymuned i'r stori, gan ddangos sut y gall cynlluniau a pharatoadau lleol i liniaru llifogydd helpu pobl i gymryd camau ymarferol yn hytrach na dibynnu'n llwyr ar amddiffynfeydd rhag llifogydd. Cynyddodd nifer y cofrestriadau ar gyfer rhybuddion llifogydd yn sylweddol yn ystod tridiau cyntaf yr ymgyrch o'i gymharu â'r wythnos flaenorol.

55. Fe wnaethon ni hefyd gefnogi rheoli materion yn ymwneud â sychder, gan gynnwys paratoi ar gyfer gorchymyn sychder posibl ar gyfer afon Hafren a negeseuon cyfathrebu wrth i amodau wella mewn rhai ardaloedd. Fe wnaethon ni barhau i gefnogi'r ymgyrch effeithlonrwydd dŵr amlasiantaeth a hyrwyddo lansiad y Grant

Adfer Mawndiroedd, gan dynnu sylw at rôl atebion ar sail natur mewn mesurau gwydnwch hinsawdd.

Lleihau Llygredd

56. Mae adnoddau sylweddol wedi'u neilltuo i baratoadau ar gyfer cyhoeddi'r Adroddiad Mewnwelediadau ar y Cyd ar berfformiad y cwmnïau dŵr ac adroddiadau cysylltiedig CNC. Rheolodd y tîm hefyd ddiddordeb helaeth yn y cyfryngau a chan randdeiliaid yn ymwneud â pherfformiad a mesurau rheoleiddio'r cwmnïau dŵr.

57. Roedd angen cymorth sylweddol ar ffurf negeseuon cyfathrebu ar gyfer yr amrywiad i drwydded safle tirlenwi Withyhedge oherwydd lefel y pryder cyhoeddus. Canolbwyntiodd y negeseuon cyfathrebu ar egluro rôl reoleiddio CNC, y penderfyniad trwyddedu, a'r gweithgarwch ymchwilio sy'n mynd rhagddo. Fe wnaethom ni hefyd gefnogi ymgynghoriad ar amrywiad trwydded arfaethedig Kronospan a negeseuon cyfathrebu ynghylch estyniad dros dro'r cyfnod gwasgaru slyri yn dilyn tywydd sych eithriadol. Mae'r gwaith hwn yn cynorthwyo dealltwriaeth o rôl reoleiddio CNC ac yn cefnogi ymgysylltiad effeithiol â rhanddeiliaid a'r gymuned ynghylch materion amgylcheddol cymhleth.

Cefnogi Adferiad Byd Natur

58. Parhaodd adfer natur i ddarparu cyfleoedd i ddangos effaith a gwaith partneriaeth CNC. Roedd cyfathrebiadau ynghylch cyhoeddi'r asesiad diweddaraf o stoc eogiaid yn cydbwyso pryder ynghylch stociau sy'n dirywio ag enghreifftiau o waith adfer parhaus, gan gynnwys gwelliannau i gynefinoedd afonydd a phrosiectau llwybrau pysgod. Fe wnaethom ni hefyd sicrhau sylw cryf ar gyfer mentrau adfer rhywogaethau, gan gynnwys parhad y prosiect Mamaliaid Hudolus a darganfod y gwyfyn glaswellt y gors prin yng Ngwarchodfa Natur Genedlaethol Cors Geirch.

Crynodeb o Gwynion, Canmoliaeth a Gohebiaeth

59. Ym mis Awst a mis Medi, gweithiodd y Tîm Gohebiaeth Canolog ar 111 o eitemau o ohebiaeth, cynnydd amlwg o'i gymharu â'r ddau fis blaenorol, pan oedd yn 84, gyda mis Medi yn fis prysuraf erioed i ni. Atebwyd 99% o ohebiaeth a ddaeth i law o fewn y cytundeb lefel gwasanaeth, yn erbyn targed o 90%. Cafwyd yr ohebiaeth gan ystod eang o bobl a sefydliadau, gan gynnwys Llywodraeth Cymru ac aelodau unigol o'r Senedd, cynrychiolwyr gwleidyddol etholedig eraill, rhanddeiliaid, aelodau'r cyhoedd, awdurdodau lleol a chyrff llywodraeth eraill, cynghorau cymuned, busnesau, a grwpiau gweithredu. Y prif bynciau oedd Kronospan, y tanau gwyllt, ansawdd dŵr afon Tywi, Chwarel Ffynnon Taf, y ganolfan ddata arfaethedig ar y Fenai, pryderon ynghylch gwastraff yng Nghoed-poeth, a'r Mwynglawdd.

60. Mae 54 o geisiadau mynediad at wybodaeth newydd wedi dod i law ers ein diweddariad diwethaf, gyda 75 o ymatebion wedi'u cwblhau wedi'u hanfon allan yn ystod mis Awst a mis Medi. Ymatebwyd i 93% o'r rheini o fewn ein cytundeb lefel gwasanaeth o 20 diwrnod gwaith, yn erbyn targed o 90%. Y prif bynciau ar gyfer ceisiadau mynediad at wybodaeth dros y cyfnod oedd llygredd afonydd ac ansawdd dŵr, safle tirlenwi'r Hafod, tanau gwyllt, Kronospan, a thir halogedig hanesyddol.

61. Yn dilyn y toriad data yn ymwneud â data a rannwyd yn allanol yn 2021, cawsom gais gan asiant AI a oedd yn gweithredu ar ei ran ei hun yn ôl pob golwg, nid ar ran

unrhyw sefydliad na chleient. Fe wnaethom ni ei gyfeirio at Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth i gael cyfarwyddyd. Roedd gan y swyddfa ddiddordeb mawr yn y mater, ac nid yw'n ymddangos eu bod wedi cael gwybod am unrhyw geisiadau tebyg blaenorol. Fe wnaethant gynghori: *"Yn seiliedig ar y geiriad penodol, rydym yn ystyried nad yw hyn wedi'i wneud gan 'berson' ac felly nid yw'n gais dilys y mae angen i chi ymateb iddo."*

62. Ers ein diweddariad diwethaf, rydym wedi cael 14 achos o ganmoliaeth ar gyfer y sefydliad neu aelodau penodol o staff.

Tim	Manylion y Ganmoliaeth
Rheoli Tir – Gogledd-orllewin	Canmoliaeth i staff CNC a helpodd i gydlynu cymorth i aelod o'r cyhoedd oedd mewn trallod yn Niwbwrch
Canolfan i Gwsmeriaid	Canmoliaeth i staff CNC am wasanaeth rhagorol i gwsmeriaid
Rheoli Tir – De-ddwyrain	Canmoliaeth i staff CNC am gynorthwyo yn Llansanffraid Gwynllŵg
Rheoli Tir – Canolbarth a De	Canmoliaeth i staff CNC am fynd y tu hwnt i'r gofyn drwy roi cyfarwyddiadau a chyngor clir ynglŷn â thaith gerdded Rhaeadr y Bedol
Rheoli Tir – Gogledd-orllewin	Canmoliaeth i staff CNC am eu cymorth eithriadol i aelod o deulu aelod o staff yn ystod argyfwng yn y nos
Tîm Peirianneg Integredig Rhanbarthau Draenio Mewnol – De-ddwyrain	Canmoliaeth i'r tîm Gweithrediadau yng Nghasnewydd am waith clirio llystyfiant dros ben ar ffosydd draenio
Rheoli Tir – Gogledd-orllewin	Canmoliaeth i staff CNC am waith patrolio yng nghoedwig Gwydir yr haf hwn
Tîm Gorfodi a Throseddau	Canmoliaeth i staff CNC yn dilyn ymweliad safle â Cosmeston mewn perthynas â gorfodi yn y sector Pysgodfeydd
Gweithrediadau – De-orllewin a De Canolog	Canmoliaeth i staff CNC am eu gwaith cydweithredol ar gais am eithriad ymchwil a datblygu
Rheoli Tir – Gogledd-orllewin	Canmoliaeth i staff CNC am eu gwaith rhagorol yn ystod y tywydd poeth diweddar
Gweithrediadau Coedwig – Gogledd	Canmoliaeth i staff CNC am eu cymorth i ddod o hyd i gi coll yng Nghoedwig Beddgelert
Datblygu a Risg Llifogydd – Gogledd	Canmoliaeth i aelod o staff CNC am ei ddull proffesiynol a phragmatig wrth gyhoeddi penderfyniad ar drwydded
Timau Asedau, Gweithlu Integredig a Pheirianneg Integredig – De-ddwyrain	Canmoliaeth i staff CNC am eu gwaith parhaus a'u cymorth i Grŵp Llifogydd
Cwynion a Rheoli Tir – De-ddwyrain	Canmoliaeth i staff CNC mewn perthynas ag ymateb i gais am wasanaeth yn ymwneud â cham trosglwyddo i geffylau yn Cefn Pwll Du, Machen

63. Fe wnaethon ni agor 82 o gwynion ym mis Awst a mis Medi, cynnydd sylweddol eto o'i gymharu â'r ddau fis blaenorol. Fodd bynnag, roedd 43 o'r rhain yn gwynion yn ymwneud â'r Gymraeg ynghylch enwi Coed Braich Melyn. Yn dilyn cyfarfod â Chomisiynydd y Gymraeg, mae'r mater penodol hwn yn cael ei gyfeirio at eu Panel Enwau Lleoedd Lleol, a fydd yn cyfarfod ym mis Ionawr i benderfynu beth ddylai'r enw fod.

64. Ymatebwyd i 95% o'r cwynion a ddaeth i law o fewn ein cytundeb lefel gwasanaeth o 20 diwrnod gwaith, yn erbyn targed o 90%. Cafodd 82 o gwynion eu cau yn ystod y cyfnod, unwaith eto ein mis prysuraf erioed, gyda 56 wedi'u cadarnhau (gan gynnwys y 43 am Goed Braich Melyn) a 26 heb eu cadarnhau. Y prif bynciau eraill ar gyfer cwynion ym mis Awst a mis Medi oedd ymateb i danau gwyllt, ansawdd dŵr a Kronospan. Yn ogystal, daeth dau hysbysiad penderfynu gan yr ombwdsmon i law; eu penderfyniad oedd peidio ag ymchwilio i'r naill fater na'r llall a godwyd.

65. Cymeradwywyd Adroddiad Blynyddol Cwynion a Chanmoliaeth 2025/26 yng Ngrŵp Busnes y Gwasanaethau Corfforaethol ym mis Hydref, ochr yn ochr ag adroddiad cryno a ffeithluniau gysylltiedig. Dros y misoedd nesaf, byddwn yn ymgysylltu â thimau rheoli ar draws y sefydliad i gyflwyno'r wybodaeth gan gwsmeriaid sydd yn yr adroddiad, gyda'r bwriad o helpu i lywio'r broses o wneud penderfyniadau ac ysgogi gwelliant parhaus mewn gwasanaethau.

Rhagolwg

- Dydd Mercher 25 Tachwedd – Pwyllgor Cyllid
- Dydd Iau 26 Tachwedd – Hyfforddiant ar atebolrwydd cyhoeddus ar gyfer aelodau'r bwrdd
- Dydd Gwener 27 Tachwedd – Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg
- Dydd Mercher 9 Rhagfyr – Galw am ddiweddariadau gan y bwrdd
- Dydd Iau 10 Rhagfyr – Pwyllgor y Bobl
- Dydd Iau 21 Ionawr – Cyfarfod mis Ionawr y bwrdd
- Dydd Mercher 3 Chwefror – Pwyllgor Cyllid
- Dydd Mercher 17 Chwefror – Galwad am ddiweddariadau gan y bwrdd

Papur Bwrdd Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC)

Dyddiad y cyfarfod:	18 Tachwedd 2026
Teitl y papur:	Diweddariad y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg (ARAC) i'r Bwrdd
Cyfeirnod y papur:	26-11-B08
Noddwyd y papur gan:	Mair Gwynant, Cadeirydd ARAC
Paratowyd y papur gan:	Ysgrifenyddiaeth y Bwrdd
Cyflwynwyd y papur gan:	Mair Gwynant, Cadeirydd ARAC
Diben y papur	Er gwybodaeth
Crynodeb	I roi diweddariad llafar i'r Bwrdd ynghylch cyfarfod ARAC ar 25 Medi 2026.

Cefndir

1. Mae'r diweddariad hwn i'r Bwrdd yn ymwneud â chyfarfod ARAC ar 25 Medi 2026.

Diweddariad

Eglurhad o'r sefyllfa bresennol gan y Prif Weithredwr

2. Amlinellodd y Prif Weithredwr yr heriau parhaus y mae CNC yn eu hwynebu, gan gynnwys pwysau ar adnoddau a throseddau gwastraff yn y Gogledd-ddwyrain. Bu ARAC yn trafod troseddau gwastraff, gan gynnwys negeseuon cyfathrebu ar sut yr oedd CNC yn mynd i'r afael â nhw o fewn ei gylch gwaith, a sut i sicrhau yr eid i'r afael â'r achos gwreiddiol er mwyn osgoi symud y mater i wahanol rannau o'r Deyrnas Unedig. Trafodwyd rheoli risg a chymhwyso'r fframwaith rheolaeth fewnol hefyd, a heriodd ARAC a oedd y rhain wedi eu hymgorffori ar draws y sefydliad cyfan. Eglurwyd bod hwn yn faes ffocws, ac y byddai'n cael ei drafod yn nigwyddiad arfaethedig y Tîm Gweithredol a'r Tîm Arweinyddiaeth. Bu ARAC hefyd yn trafod y risgiau i enw da, sy'n deillio o ganfyddiad anghywir y cyhoedd o rôl a chyfrifoldebau CNC mewn perthynas â digwyddiadau diweddar.

Goruchwyliaeth ARAC o fframwaith a sicrwydd rheoli risg

3. Bu ARAC yn trafod yr adroddiadau PowerBI o'r Gofrestr Risg Strategol a'r cofrestrau risg sy'n cyfrannu at hyn. Roedd ategu cyflawnrwydd ac ansawdd y data risgiau o fewn y sefydliad yn rhywbeth y mae'r tîm risgiau yn canolbwyntio arno, a byddai'n parhau i ganolbwyntio arno. Byddai sgoriau risg hefyd yn cael eu hadolygu i sicrhau nad oeddent yn rhoi ymdeimlad ffug o sicrwydd.

4. Roedd y Tîm Gweithredol hefyd yn adolygu risgiau ar y cyd i nodi themâu cyffredin, lleihau dyblygu, a chryfhau goruchwyliaeth ar draws y sefydliad. Roedd archwiliadau manwl rheolaidd o risgiau strategol wedi eu trefnu ar gyfer y Tîm Gweithredol, gyda dau wedi eu cwblhau ers cyfarfod diwethaf ARAC. Trafodwyd y Cofnod Risgiau a Materion Sefydliadol (ORIL) hefyd.

Archwilio Cymru

5. Roedd Archwilydd Cyffredinol newydd i Gymru wedi cael ei phenodi, Catherine Mealing-Jones. Roedd Archwilio Cymru a'r tîm Cyllid wedi adolygu materion a oedd wedi codi yn ystod archwiliad 2025–2026, ac roeddent bellach yn ystyried y camau i'w cymryd ar gyfer gwelliannau i archwiliad y flwyddyn nesaf. Byddai cynllunio ar gyfer archwiliad 2026–2027 yn dechrau ar ddiwedd y flwyddyn.

Archwilio Mewnol

6. Roedd adroddiadau Archwilio Mewnol y chwarter blaenorol wedi darparu barn cymedrol a sylweddol, a nodwyd y negeseuon allweddol o'r rhain. Rhoddwyd sicrwydd y byddai'r Tîm Gweithredol yn ystyried y safbwynt cyfannol yn eu trafodaethau ar adroddiadau archwilio yn y dyfodol, a byddai hyn yn cael ei adlewyrchu yn adroddiad Arweinydd Gweithredol ARAC i ARAC. Roedd camau'r rheolwyr hefyd yn destun craffu yng nghyfarfodydd y Tîm Gweithredol, gyda her briodol. Dywedodd y Pennaeth Archwilio Mewnol ei bod wedi ei chalonogi bod camau gweithredu hwyr yn lleihau, ond nodwyd ganddi bod y tîm Archwilio Mewnol yn parhau i ganolbwyntio ar gamau gweithredu fel nad oedd rhagor yn mynd yn hwyr.

7. Darparwyd trosolwg o ychwanegiadau at gynllun treigl Archwilio Mewnol, a chymeradwywyd y rhain gan ARAC. Tynnwyd sylw at y dangosyddion perfformiad allweddol, ac hysbyswyd ARAC eu bod yn cael eu hadolygu.

Llywodraethiant ARAC

8. Byddai rhagolwg 12 mis yn cael ei gyflwyno i gyfarfod nesaf ARAC, a chroesawodd ARAC fformat newydd y cyfarfod.

Papur Bwrdd Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC)

Dyddiad y cyfarfod:	18 Tachwedd 2026
Teitl y papur:	Diweddariad y Pwyllgor Ardaloedd Gwarchodedig (PrAC) i'r Bwrdd
Cyfeirnod y papur:	26-11-B09
Noddwyd y papur gan:	Adam Taylor, Cadeirydd PrAC
Paratowyd y papur gan:	Ysgrifenyddiaeth y Bwrdd
Cyflwynwyd y papur gan:	Adam Taylor, Cadeirydd PrAC
Diben y papur	Er gwybodaeth
Crynodeb	Mae'r crynodeb hwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf ynghylch cyfarfod PrAC a gynhaliwyd ar 29 Medi 2026.

Cefndir

1. Mae'r diweddariad hwn i'r Bwrdd mewn perthynas â chyfarfod PrAC ar 29 Medi 2026. Gall aelodau'r Bwrdd gyrchu holl ddogfennaeth cyfarfodydd y pwyllgor drwy'r porth Diligent.

Monitro'r gwaith o asesu cyflwr safleoedd dynodedig

2. Darparwyd diweddariad ar y Rhaglen Monitro Cyflwr. Byddai hyn yn canolbwyntio ar wella'r ddarpariaeth o fonitro o'r dechrau i'r diwedd, gyda systemau gwell, effeithlonrwydd, a gwireddu cyfleoedd i wella gwybodaeth ac asesiadau cyflwr safleoedd o ddiddordeb gwyddonol arbennig. Amlinellwyd datrysiadau hirdymor ac interim i alluogi mewnbwn effeithlon o ddata ar-lein, a gwella monitro cydweithredol.

3. Trafodwyd y dulliau a'r ymagweddau newydd ac arloesol at fonitro. Adroddwyd bod cydweithwyr yn y De-ddwyrain wedi cwblhau asesiadau bwrdd gwaith o bob un o'r 88 o safleoedd o ddiddordeb gwyddonol arbennig daearol yn yr ardal, gan ddefnyddio'r dull asesu cyflym newydd. Croesawodd PrAC yr allbynnau, gan ddeall gwerth cydweithio, ac y byddai cefnogi darpariaeth sy'n seiliedig ar leoedd yn bwysig.

Fframwaith perfformiad ar gyfer amcan llesiant 1 (WBO1) – Natur

4. Cyflwynwyd trosolwg i'r pwyllgor o'r fframwaith perfformiad yn canolbwyntio ar amcan llesiant 1. Dangosodd hyn linell weledigaeth glir o'r cynllun sefydliadol i'r broses gyflawni, gan gynnwys y ddau ganlyniad natur a pherfformiad.

5. Roedd y pwyllgor yn deall bod rhai metrigau yn fwy aeddfed nag eraill. Holwyd am amserlen y fframwaith, a chydnabuwyd y byddai angen rhai addasiadau bach ar ôl i'r llythyr cylch gwaith newydd ddod i law. Gwnaeth y pwyllgor awgrymiadau ar y naratif, i gynnwys canrannau hefyd er mwyn dangos cynnydd, ac i wella'r ffordd y dangosir effeithiau ar brosiectau penodol. Awgrymwyd hefyd y gallai'r fframwaith geisio cyngor ar sut i atal niwed amgylcheddol, megis osgoi datblygu ar orlifdiroedd, safleoedd â gwerth natur uchel, a choridorau ecolegol.

Rhagolwg

6. Bu'r pwyllgor yn adolygu'r rhagolwg, a gwnaed awgrymiadau ar gyfer eitemau agenda posibl yn y dyfodol, pe na bai angen cyfarfodydd at ddibenion hysbysu, a phynciau posibl i'w symud ymlaen i'r Pwyllgor Cyflawni Strategol (SDC).

Papur Bwrdd Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC)

Dyddiad y cyfarfod:	18 Tachwedd 2026
Teitl y papur:	Diweddariad gan y Pwyllgor Pobl
Cyfeirnod y papur:	26-11-B10
Noddwyd y papur gan:	Mark McKenna, Cadeirydd y Pwyllgor Pobl
Paratowyd y papur gan:	Ysgrifenyddiaeth y Bwrdd
Cyflwynwyd y papur gan:	Mark McKenna, Cadeirydd y Pwyllgor Pobl
Diben y papur	Er gwybodaeth
Crynodeb	I roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd ynghylch cyfarfod y Pwyllgor Pobl a gynhaliwyd ar 8 Hydref 2026.

Cefndir

1. Mae'r diweddariad hwn i'r Bwrdd yn ymwneud â chyfarfod y Pwyllgor Pobl ar 8 Hydref. Gall aelodau'r Bwrdd gyrchu holl bapurau a chofnodion y pwyllgor drwy'r porth Diligent.

Adroddiad Llesiant, Iechyd a Diogelwch Ch1 ac Adroddiad Dysgu a Datblygu a Rheoli Arweinyddiaeth Ch1

